

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 46/2012



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o Brosiect Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'



Gwerthusiad o Brosiect Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'

Yr Athro Alan Clarke

Yr Athro John Williams

Sarah Wydall

Rebecca Boaler

Adran y Gyfraith a Throseddeg

Adeilad Hugh Owen

Prifysgol Aberystwyth

Penglais

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3DY

Barn yr ymchwilydd ydy pob barn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o angenrheidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Robert Willis

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddiad

Llywodraeth Cymru

Swyddfa Merthyr Tudful

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8138

Ebost: Robert.willis@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012

ISBN 978-0-7504-8518-0

© Hawlfraint y Goron 2012

Cynnwys

Tudalen

Diolchiadau
Rhestr Termau
Crynodeb Gweithredol

1.	Cyflwyniad	10
	Cyd-destun y polisi ehangach Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' Y cyd-destun lleol	
2.	Amcanion a Methodoleg yr Ymchwil	14
	Amcanion allweddol Casglu data Dadansoddi data	
3.	Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'	17
	Gweithredu a hyfforddiant Proffil y dioddefwyr Nifer a mathau o ddigwyddiadau erledigaeth Nodweddion cyflawnwyr y troseddau	
4.	Llwybrau Cyfeirio	25
	Asesu risg Caniatâd Galluedd Yr opsiynau a drafodwyd Cyfeiriadau	
5.	Canlyniadau	41
	Remedïau Proffil o gamdriniaeth ar ddiwedd yr ymyrraeth Cyfeirio Cyfranogwyr OPAN	
6.	Argymhellion	49
	Cyfeiriadau	54
	Atodiadau	55
	A: Llwybrau Cyfeirio	
	B: Cofnod rheoli achos	
	C: Siediwl cyfweliadau	
	D: Model arfaethedig o arfer i gysylltu diogelu oedolion â chamdrin domestig	
	E: Rôl MARAC, IDVA ac IMCA	

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r bobl a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon ac a roddodd o'u hamser gwerthfawr i'n cynorthwyo, Gwerthfawrogwyd help y sectorau statudol a gwirfoddol ar draws meysydd gofal cymdeithasol, iechyd a chyfiawnder troseddol. Rhaid diolch yn arbennig i'r bobl hŷn a gytunodd i gael eu cyfweld. Er mwyn diogelu cyfrinachedd, teimlwn mai amhriodol fyddai enwi unrhyw un.

Rhestr Termau

BAWSO	Black Association of Women Step Out (Cymdeithas i gynorthwyo merched duon sy'n dioddef camdriniaeth)
BME	Pobl Dduon Lleiafrifoedd Ethnig
CAADA	Gweithredu Cydlynus yn erbyn Cam-drin Domestig
CMR	Cofnod Rheoli Achos
CPS	Gwasanaeth Erlyn y Goron
DASH RIC	Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu 'er Anrhydedd': Rhestr Wirio Dangosydd Risg
DLM	Rheolwr Llinell Dynodedig
GP	Meddyg Teulu
IDVA	Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig
IMCA	Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol
LGBT	Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
MARAC	Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth
MCA	Deddf Galluedd Meddyliol
OPAN	Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio
POVA	Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

- 1.1. Un o brif amcanion Peilot 'Mynediad i Gyfiawndwr' ydy caniatâu i ddioddefwyr cam-drin domestig hŷn agored i niwed gael mynediad i brosesau cyfiawnder troseddol neu sifil i'w hamddiffyn rhag dioddef camdriniaeth bellach.
- 1.2. Seilir y nod hwn ar yr angen i sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn. Yn *Yr Hawl i Fod yn Ddiogel*, nododd Llywodraeth Cymru mai 'un o'r hawliau mwyaf sylfaenol yw cael eich diogelu rhag trais neu gamfanteisio'. (2010: 4).

2. Amcanion a Methodoleg

- 2.1. Wrth werthuso Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' ystyriwyd y broses a'r canlyniadau wrth archwilio sut mae asiantaethau cyfiawnder troseddol a sifil sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr hŷn yn delio â risg, galluedd a chaniatâd.
- 2.2. Mabwysiadwyd cynllun ymchwil aml-ddull oedd yn defnyddio dulliau ansoddol a meintiol o gasglu a dadansoddi data. Casglwyd data o ffynonellau amrywiol: cofnodion rheoli achosion (CMRau); dadansoddi ffeiliau achos; mapiau proses; cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda rheolwyr ac ymarferwyr a phobl hŷn; grŵp ffocws a chofnod yr heddlu o achosion o gam-drin domestig.
- 2.3. Cynhaliwyd ugain o gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda rheolwyr ac ymarferwyr o unarddeg o grwpiau statudol a naw grŵp o'r trydydd sector. Cyfwelwyd deuddeg person hŷn ac un person hŷn oedd yn dioddef o gam-drin yr henoed gan ddefnyddio senarios heb ddatgelu eu henwau o themâu oedd yn ymddangos yn aml yn nadansoddiad cynnwys y CMRau.

3. Casgliadau

- 3.1. Ar y cychwyn roedd rhai o'r asiantaethau statudol yn araf i ddangos diddordeb yn y Peilot. Hefyd, roedd rhai o'r ymarferwyr gafodd eu cyfweld yn tybio nad oedd mudiadau mewn rhai achosion yn anfon y personél priodol i sesiynau hyfforddi er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei lledaenu'n effeithiol drwy'r sefydliad. Roedd pawb yn amlwg yn cydnabod ethos cyffredinol Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' ac yn ei gefnogi.
- 3.2. Cofnodwyd cyfanswm o 145 o ddigwyddiadau gwahanol yn cynnwys 131 o ddioddefwyr unigol rhwng 3 Rhagfyr 2012 a 31 Ionawr 2012. Roedd data ar gael ar gyfer 127 o ddioddefwyr (mewn pedwar achos nodwyd bod ail ddioddefwr yn bresennol ar adeg y digwyddiad).

- 3.3. O'r 131 dioddefwr roedd 95 yn ferched a 36 yn ddynion. Mae hyn yn gyfran uwch o ddynion nag arfer o blith y grwpiau iau o ran oed. Roedd oed y dioddefwyr yn amrywio o 55 i 91 oed. Roedd gan bron i un o bob tri dioddefwr anabledd. Cofnodwyd bod diffyg galluedd meddyliol gan ddeg unigolyn.
- 3.4. O gymharu dioddefwyr o ferched â dioddefwyr o ddynion, cafwyd bod cyfran uwch o ddynion (56%) na merched (33%) yn cael eu cam-drin yn gorfforol.
- 3.5. O ran cyflawnwyr y drosedd roedd 109 yn ddynion a 44 yn ferched. Roedd 50 o feibion ac 20 o wyrion. Roedd y meibion yn fwy tebygol o fod yn camddefnyddio sylweddau na chyflawnwyr eraill. Mewn un achos yn unig y cafwyd bod y dioddefwr a'r cyflawnwr dan ddylanwad alcohol ar adeg y digwyddiad. Mae'n ymddangos bod y patrwm hwn o gamddefnyddio sylweddau yn wahanol i'r hyn a geir mewn achosion o gam-drin domestig ymhlith grwpiau iau o ran oed.
- 3.6. Wrth ystyried y dioddefwr – o safbwynt y cyflawnwr, nodwyd yn fras ddau fath o ymddygiad cyflawnwyr: ymddygiad y cyflawnwr adweithiol ac ymddygiad y cyflawnwr rhagweithiol.
- 3.7. Ymddygiad rhagweithiol oedd gan briod/cyn briod ac o'r holl sampl, yn yr achosion hyn y cafwyd y lefel uchaf o drais corfforol. Fel is-grŵp, roedd hi'n ymddangos bod y canlyniadau gwaethaf yn dod o blith partneriaid agos iawn.
- 3.8. Ar draws pob asiantaeth cwblhawyd ffurflenni Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu 'er Anrhydedd': Rhestr Wirio Dangosydd Risg (DASH RIC) mewn 66 o achosion, o'r rhain cwblhaodd yr heddlu 58 a'r gwasanaethau cymdeithasol chwech ohonyn nhw.
- 3.9. Mewn o leiaf 30 o achosion, o ystyried difrifoldeb eithriadol y digwyddiad a ddisgrifiwyd yn Adran C o'r CMR, roedd lefel y risg a gofnodwyd yn Adran B yn is nag a ddisgwyd. Teimlwyd bod angen addasu ychydig ar DASH RIC i gwrdd ag anghenion dioddefwyr hŷn.
- 3.10. Datblygwyd fersiwn ddiwygiedig o DASH RIC a hyfforddwyd personél y gwasanaethau cymdeithasol i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, gan mai dim ond chwe ffurflen DASH RIC a gwblhawyd gan wasanaethau cymdeithasol yn ystod y Peilot, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliad a oedd yr arf diwygiedig yn darparu mesur cywirach o risg o ran cam-drin pobl hŷn.
- 3.11. Roedd canlyniadau lles positif yn fwy tebygol pan oedd sefydliadau'r trydydd sector yn cymeryd rhan.
- 3.12. Yn y mwyafrif helaeth o achosion (70%) nododd y CMR nad oedd y ffurflen wreiddiol yn dangos a gafwyd caniatâd. Gallai methu â chofnodi derbyn caniatâd effeithio ar allu'r asiantaeth gyfeirio gychwynnol i gynnwys asiantaethau arbenigol ar gam-drin domestig a

grwpiau eraill y trydydd sector i geisio helpu sicrhau y bydd anghenion y dioddefwyr yn cael eu diwallu.

- 3.13. Ar ôl i ddatgeliad gael ei wneud, ystyriwyd gan rai y dylai ymarferwyr fod yn fwy rhagweithiol wrth sefydlu a oedd y caniatâd yn ddifffuant ai peidio a bod y dewis a wnaed gan y dioddefwyr yn wir adlewyrchiad o'u dymuniadau yn hytrach nag yn ddewisiadau a orfodwyd arnyn nhw oherwydd eu hamgylchiadau.
- 3.14. Mewn 43 o achosion, cofnodwyd bod galluedd gan y dioddefwyr; roedd 10 achos lle cafwyd diffyg yng ngalluedd y dioddefwr. Roedd straen gofalwyr¹ yn nodwedd mewn pump o'r achosion. Roedd cam-drin corfforol mewn wyth achos.
- 3.15. Mewn nifer sylweddol o achosion lle roedd diffyg galluedd gan y dioddefwyr a cham-drin wedi digwydd, doedd dim ffrindiau gan y dioddefwr a pherthynas agos oedd y cyflawnwr, naill ai'n byw gyda'r dioddefwr neu byw'n agos ato/ati. Doedd dim tystiolaeth yn y cofnodion eu bod wedi gofyn am help IMCA (Eiriolwr Annibynnol ar ran Galluedd Meddyliol) mewn unrhyw un o'r achosion hyn.
- 3.16. Roedd data'r cyfweiliadau hefyd yn peri pryder ynglŷn â chamdybiaethau am yr arfer o oedi cyn ymglymu IMCA yn y broses ymchwilio. Mae cynnwys IMCA yn gynnar yn hollbwysig gan fod ystod o benderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynnar yn y broses ymchwilio, penderfyniadau a all ddylanwadu'n drwm ar y canlyniad.
- 3.17. Mewn dwy ran o dair o'r holl achosion perthnasol, ni thrafodwyd opsiynau cyfiawnder troseddol na sifil gyda'r dioddefwyr.
- 3.18. Roedd hi'n amlwg o ffeiliau'r achosion bod yr heddlu wedi ymateb yn sensitif ac yn gadarnhaol i ddioddefwyr camdriniaeth yr henoed. Mewn rhai achosion domestig ymwelodd yr heddlu yn rheolaidd â chartrefi'r dioddefwyr. Ystyriwyd bod potensial i'r gwiriadau diogelwch hyn gael effaith ataliol.
- 3.19. O ran caniatâd, yr opsiynau a drafodwyd, 'ymglymiad gweithredol' (h.y, pan fyddai dioddefwr yn gweithio'n agos gydag asiantaeth y cyfeiriwyd ef/hi ati) a chanlyniadau cyfreithiol a lles, gwnaeth yr achosion a gyfeiriwyd at MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth) yn dda iawn.
- 3.20. Mae'r data yn awgrymu bod ansawdd ymglymiad ag asiantaethau yn amrywio'n sylweddol o ran sicrhau bod y dioddefwr yn cael gwybod am bopeth a bod eu dymuniadau yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau.
- 3.21. Cydnabyddwyd gan ystod o ymarferwyr a rheolwyr nad oes gan asiantaethau statudol bob amser yr adnoddau staffio angenrheidiol i ddatblygu perthynas gref gyda'u cleientiaid.

¹ Term ydy 'straen gofalwyr' a ddefnyddir i ddisgrifio symptomau ffisiolegol, seicolegol ac emosiynol a all ddeillio o'r straen barhaus o ofalu am oedolyn dibynnol.

- 3.22. Roedd hi'n ymddangos mai ymglymiad y trydydd sector lwyddodd orau i gael y dioddefwr i gymryd rhan ac ym mwyafrif yr achosion lle cafwyd colfarn roedd tystiolaeth bod y trydydd sector wedi helpu. Y dybiaeth gyffredinol oedd y gallai ymarferwyr y trydydd sector ddarparu cymorth di-duedd, annibynnol a fyddai'n rhoi grym i'r person hŷn. Ystyriwyd bod adeiladu perthynas yn hanfodol i alluogi dioddefwyr i feddwl am yr ystod o opsiynau ar gael a gweithio'n agos gyda gwasanaethau.
- 3.23. Mynegwyd pryderon gan ymarferwyr nad oedd dioddefwyr yn cael cyfle i weithio gydag ystod o asiantaethau yn arbenigo mewn cam-drin domestig oherwydd nad oedd prosesau POVA (Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed) a MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth) yn rhai oedd wedi'u hintegreiddio'n dda.
- 3.24. Os oedd y dioddefwyr wedi cytuno i gynorthwyo, doedd hi ddim yn ymddangos bod mecanwaith ar gael i fonitro'u llwybr drwy brosesau POVA a MARAC. Yn yr achosion hynny lle na roddwyd caniatâd, ond lle roedd lefel y niwed yn ddifrifol, roedd hi'n well i'r dioddefwr ein bod yn diystyrru'r caniatâd er mwyn rhannu gwybodaeth a chychwyn ar broses MARAC.
- 3.25. Cyhuddwyd unarddeg o gyflawnwyr a dyfarnwyd deg yn euog. O'r deg a gafwyd yn euog roedd pump yn wyrion, pedwar yn feibion ac un yn wraig. Cam-drin ariannol oedd y math mwyaf cyffredin o gamdriniaeth a gofnodwyd. Mewn wyth achos, roedd tystiolaeth o gamddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon a/neu gamddefnyddio alcohol.
- 3.26. Gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer yr achosion a gofnodwyd gan yr heddlu o gam-drin yr henoed dros gyfnod o ddeuddeg mis. Cynhaliwyd asesiadau risg mewn tri chwarter o'r achosion hyn sy'n cynrychioli cynnydd yn y ffigwr ar gyfartaeldd ar gyfer y tair blynedd cyn cychwyn ar y Peilot.
- 3.27. O'r data oedd ar gael roedd hi'n anodd llunio barn a ystyriwyd y potensial o ddefnyddio mesurau arbennig ac os felly, gan bwy.
- 3.28. Roedd y wybodaeth ar y ffeil yn cefnogi pob penderfyniad a adolygwyd i beidio ag erlyn. Yn nodweddiadol, y rheswm dros beidio â mynd ymlaen i erlyn oedd diffyg tystiolaeth ategol a'r dioddefwr yn gwrthod rhoi tystiolaeth.
- 3.29. Prin oedd yr enghreifftiau o ddewis opsiynau cyfraith troseddol a sifil. Roedd hi'n ymddangos bod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith ymarferwyr sut gellid defnyddio'r gyfraith sifil mewn achosion o gam-drin yr henoed.
- 3.30. Cyfyng oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau ar gofnodion rheoli achos i nodi a oedd y cam-drin wedi peidio neu wedi newid yn ei ddifrifoldeb pan gaewyd yr achos.

- 3.31. Y dyb gyffredin oedd bod 'Mynediad i Gyfiawnder' wedi rhoi hwb i gynyddu gwybodaeth ymarferwyr am gam-drin yr henoed fel ffurf ar gam-drin domestig. Er bod asiantaethau yn cefnogi ethos y peilot, cydnabuwyd bod angen newid sut i fynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin.
- 3.32. Teimlai cyfranogwyr OPAN (Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hyn a Heneiddio) y dylid amlygu canlyniadau llwyddiannus a dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i wybodaeth am brofiadau positif dioddefwyr wrth ddefnyddio cyfraith sifil a throseddol.

4. Argymhellion

- 4.1. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid integreiddio gweithdrefnau, polisiau a chyfarwyddyd ar drais domestig a cham-drin yr henoed yn fwy effeithiol.
- 4.2. Dylai ymarferwyr geisio mabwysiadu model a fyddai'n sicrhau bod POVA yn integreiddio proses MARAC yn well mewn achosion o gam-drin domestig er mwyn cynyddu cyfleoedd lles a chyfiawnder i ddioddefwyr.
- 4.3. Dylai ymarferwyr gofnodi sail unrhyw gasgliad o'u heiddo bod gan y dioddefwr alluedd cyfreithiol i gymryd rhan yn y broses ymchwilio.
- 4.4. Mae angen i ymarferwyr sicrhau, pan fo'n briodol, fod materion galluedd yn cael eu hystyried drwy gydol y broses ymchwilio.
- 4.5. Mewn achosion lle mae diffyg galluedd gan y dioddefwr, dylid derbyn bod IMCA yn cael ei gynnwys/chynnwys yn gynnar yn y broses ymchwilio yn hytrach nag ar ddiwedd y broses. Dylai hyn fod yn amodol, er enghraifft, ar dystiolaeth bod person addas arall yn cynrychioli buddiannau'r dioddefwr.
- 4.6. Dylid gwerthuso ymatebion asiantaethau statudol i ddioddefwyr hŷn heb alluedd. Dylid talu sylw arbennig i faint o ddefnydd y mae gwasanaethau oedolion a gwasanaethau ieuchyd yn ei wneud o wasanaeth IMCA ac effaith rôl IMCA yn cynorthwyo dioddefwyr anabl sy'n cael eu cam-drin.
- 4.7. Dylid seilio'r penderfyniad i ddefnyddio mesurau arbennig² mewn achosion troseddol ar asesiadau a wnaed yn ystod y broses ymchwilio o ba mor agored i niwed mae'r dioddefwr. Dylai ymarferwyr sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad hwnnw fod ar gael i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS).
- 4.8. Dylid ystyried ehangu peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' am ddwy flynedd ymhellach a dylai hyn gynnwys peilot mewn ardal wledig.

² Mae mesurau arbennig ar gael ar gyfer categorïau arbennig o dystion agored i niwed sy'n ymddangos yn y llys. Maen nhw'n cynnwys y defnydd o gyfweiliadau wedi'u recordio, croesholi ar gyswllt fideo, defnyddio person cymorth a help i gyfathrebu.

- 4.9. Dylai asiantaethau statudol fod yn fwy ymwybodol o'r cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector ac mewn achosion priodol gyda chaniatâd y dioddefwr, dylai'r trydydd sector fod yn rhan o'r ymateb aml-ddisgyblaethol.
- 4.10. Dylid ystyried darparu adnoddau ar gyfer y trydydd sector i ariannu cymorth i godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a chymorth eiriolwr.

1. Cyflwyniad

(i) Cyd-destun y polisi ehangach

Er ei bod yn anodd cael y gwir ffigyrau, mae nifer sylweddol o bobl hŷn yn byw yng Nghymru yn dioddef o gam-drin domestig mewn sefyllfaoedd lle byddech chi'n disgwyl gallu ymddiried yn yr un sy'n cam-drin. Yn 2008, cynhaliodd Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Llywodraeth Cymru adolygiad o gam-drin domestig yng Nghymru. Un o'r lluoedd o gasgliadau oedd nad oedd pobl hŷn oedd yn dioddef o gam-drin domestig yn derbyn y lefel briodol o wasanaeth ac mewn rhai achosion doedden nhw ddim yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr yn ôl cyfarwyddyd *Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar Waith yng Nghymru* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000). Mae gan y pwynt olaf oblygiadau sylweddol o ran hawliau dynol sylfaenol pobl hŷn ac, yn eu plith, yr hawl i gyfiawnder.

Yn 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', strategaeth integredig Llywodraeth Cymru (2010) ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched a cham-drin domestig, nodwyd pedair blaenoriaeth allweddol i ddelio â thrais domestig sef:

- atal a chodi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn merched a cham-drin domestig;
- darparu cymorth ar gyfer dioddefwyr a phlant;
- gwella ymateb asiantaethau cyfiawnder troseddol;
- gwella ymateb gwasanaethau iechyd ac asiantaethau eraill.

Un o'r mentrau a ddeilliodd o'r strategaeth integredig chwe mlynedd hon ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched oedd astudiaeth beilot yn ffocysu ar anghenion cymorth pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin. Cynhaliwyd y peilot gyda chymorth Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), Age Cymru, a budd-ddeiliaid allweddol eraill. Cychwynnodd Astudiaeth Beilot 'Mynediad i Gyfiawnder' yn 2010 a'i lleoli yn Abertawe. Nod y prosiect oedd hwyluso mynediad i opsiynau cyfiawnder troseddol a sifil i bobl hŷn agored i niwed oedd yn dioddef o gam-drin domestig.

Ar hyn o bryd, yng Nghymru does dim byd tebyg i ddeddf 2007 yr Alban, *Adult Support and Protection*. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn golygu nad oes gan bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin, hawliau cyfreithiol i unioni camweddau. Dylai nifer sylweddol o droseddau a gweithdrefnau'r gyfraith sifil fod ar gael i ddioddefwyr hŷn yn yr un modd ag y maen nhw ar gael i aelodau eraill o'r gymdeithas. Mae'n fater polisi allweddol i ganfod a ydy dioddefwyr hŷn yn cael eu heithrio, yn ymwybodol neu fel arall, mewn unrhyw fodd rhag cael mynediad i gyfiawnder. Os ydyn nhw, beth ydy'r rhesymau a sut y gellir delio â'r rhesymau hyn?

Llwyddodd cyfarwyddyd *Mewn Dwylo Diogel* i godi ymwybyddiaeth o gam-drin oedolion agored i niwed a sefydlu gweithdrefn ymateb aml-ddisgyblaethol. Yn ddigon priodol, elfen allweddol y weithdrefn hon ydy'r angen i ddarparu cymorth lles priodol ar gyfer y rhai hynny sy'n dioddef camdriniaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adolygiad diweddar, *Mewn Dwylo Diogel*, dydy'r cyfarwyddyd ddim yn berthnasol bellach ac mae angen ei ddiwygio (Magill et.

al., 2010). Mae angen i unrhyw ddiwygiad, neu yn wir gyflwyniad, o bwerau statudol newydd i fynd i'r afael â phwysigrwydd yr ymateb lles a hefyd yr angen i sicrhau mynediad i gyfiawnder (sifil a throseddol) mewn achosion priodol ar gyfer pobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth.

Yn adroddiad Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol *Trosolwg ar Amddiffyn Oedolion (2010)* cydnabuwyd mai materion grymuso a chyfiawnder ddylai fod wrth wraidd unrhyw wasanaeth diogelu cynhwysfawr. Mae lluo sialensiau yn wynebu dioddefwyr cam-drin domestig sy'n ceisio cael cyfiawnder drwy'r llwybr troseddol a/neu sifil, sialensiau sydd, yn aml yn anorchfygol yn enwedig o gofio am y ddeinameg gymhleth all fodoli rhwng y dioddefwr a'r cyflawnwr. Gall dioddefwyr ddioddef rhyw fath o 'erledigaeth eilaidd' sy'n digwydd nid o ganlyniad uniongyrchol i weithred droseddol ond yn hytrach oherwydd ymateb amhriodol neu negyddol unigolion a sefydliadau i'r dioddefwr. Er enghraifft, gallai hyn ddigwydd oherwydd diffyg profiad a'r hyfforddiant angenrheidiol ar ran y bobl broffesiynol i ymateb yn briodol i anghenion pobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth, yn enwedig pan fydd eu hanghenion yn rhai cymhleth. Ar ben hynny, os ydy dioddefwr yn profi anghyfiawnder dylai fod cyfleoedd i ddelio â hyn: lluniwyd peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' i ddarparu'r cyfryw gyfleoedd ar gyfer dioddefwyr hŷn sy'n cael eu cam-drin.

Hawliau dynol ydy gyrrwyr allweddol yr Astudiaeth Beilot 'Mynediad i Gyfiawnder'. yn y ddogfen '*Yr Hawl i fod yn Ddiogel*', nododd Llywodraeth Cymru mai 'un o'r hawliau mwyaf sylfaenol yw cael eich diogelu rhag trais neu gamfanteisio.' (2010: 4). Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi cydnabod yr angen i'r Wladwriaeth fod ar ei gwylidwriaeth wrth amddiffyn y rhai agored i niwed am ba reswm bynnag yn eu cymdeithas. Yn *A v United Kingdom ((1999) 27 EHRR 611)* datganodd Llys Ewrop fod: 'hawl gan blant ac unigolion eraill agored i niwed yn arbennig, gael eu hamddiffyn gan y Wladwriaeth ar ffurf ataliaeth effeithiol rhag tarfu'n ddifrifol ar eu hintegriti personol.'

Atgyfnerthir y ddyletswydd bositif hon ar y Wladwriaeth gan y ddyletswydd ar awdurdodau lleol yn ôl adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws ag unrhyw un o'r hawliau dynol a geir yn y *Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*. Mae cam-drin pobl hŷn yn ymwneud â nifer o wahanol hawliau dynol o dan y Confensiwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Erthygl 2: yr hawl bod bywyd yn cael ei amddiffyn ;
- Erthygl 3: yr hawl i beidio gael eu trin yn annynol a diraddiol;
- Erthygl 5: yr hawl i ryddid a diogelwch personol;
- Erthygl 6: yr hawl i gael gwrandawriad teg;
- Erthygl 8: yr hawl i gael bywyd preifat, bywyd teuluol preifat, cartref a gohebiaeth preifat;
- Erthygl 9: yr hawl i ryddid barn, cydwybod a chrefydd
- Erthygl 10: yr hawl i ryddid mynegiant

Mae Erthygl 14 yn datgan y dylai pawb gael pob hawl a phob rhyddid, heb wahaniaethu ar unrhyw sail gan gynnwys oed.

O gymhwyso hawliau dynol i achosion o gam-drin pobl hŷn, rhaid bod yn gytbwys. Ar un llaw, mae amddiffyn a chynorthwyo'r dioddefwr yn hanfodol. Yn ôl erthygl 13 er enghraifft, hawl ydy cymorth lles ac ymyrraeth therapiwtig. Fodd bynnag, rhaid hefyd ystyried gofalu am gyfiawnder i'r dioddefwyr. Er enghraifft, mae erthygl 13 yn sicrhau remedi mewn llys cenedlaethol i unrhyw berson y mae ei hawl, yn ôl y Confensiwn, wedi'i dramgwyddo. Os tramgwyddir yn erbyn hawl sylfaenol (er enghraifft yr hawl bod bywyd yn cael ei amddiffyn neu wahardd triniaeth ddiraddiol neu annynol), mae Llys Ewrop wedi datgan bod hyn yn cynnwys yr hawl i ymchwiliad trylwyr ac effeithiol a fyddai'n gallu arwain at ganfod y rhai sy'n gyfrifol gan gynnwys *mynediad effeithiol ar gyfer yr achwynydd i'r broses ymchwilio* (*Z v United Kingdom* (2002) 34 EHRR 97 para 109). Efallai mai mynediad i gyfiawnder, yn ogystal â bod yn hawl dynol ynddo'i hun ydy'r unig ddull effeithiol o amddiffyn y person. Dydy darparu cymorth lles a defnyddio prosesau cyfiawnder troseddol a sifil ddim yn anghydnaws nac yn annibynnol ar ei gilydd. Dydyn nhw ddim yn ategu ei gilydd a chymryd bod cydbwysedd priodol mewn achos unigol

(ii) Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'

Datblygwyd peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' ar gyfer 'pobl hŷn agored i niwed sy'n dioddef o gam-drin domestig. Diffinnir pobl hŷn fel:

"Pobl 60 oed neu hŷn sydd ddim mewn sefyllfa i amddiffyn eu lles eu hunain, eu heiddo eu hunain nac unrhyw fuddiannau eraill:

- oherwydd eu bod yn anabl **neu**
- oherwydd eu bod yn sal **neu**
- fel arall **ac**
- "mewn perygl o gael niwed o gam-drin domestig y mae person arall – neu ymddygiad person – yn ei achosi ineu'n debygol o achosi." (Mynediad i Gyfiawnder, 2011: 8)

Prif amcan y fenter ydy galluogi dioddefwyr i gael mynediad i brosesau troseddol neu sifil wrth geisio amddiffyn eu hunain rhag cael eu cam-drin ymhellach. Yn gyffredinol, bwriad y cynllun Peilot ydy 'adlewyrchu Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn pryd bynnag mae'n digwydd, hyrwyddo delweddau positif o heneiddio a darparu llais cryf ar gyfer pobl hŷn yn y gymdeithas' (Mynediad i Gyfiawnder, 2011: 3). Nodwedd annatod o'r fenter ydy sefydlu llwybr cyfeirio ar gyfer asiantaethau sydd yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i ddioddefwyr cymorth. Pwrpas y llwybr ydy sicrhau bod:

- pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig yn cael opsiynau i chwilio am fynediad i gyfiawnder;
- ymarferwyr proffesiynol yn deall a gwerthfawrogi arwyddocad y risg i bobl hŷn agored i niwed sy'n dioddef o gam-drin domestig;
- datgeliadau o gam-drin yn cael eu cofnodi'n briodol a bod mesurau cymorth yn cael eu rhoi ar waith;
- asiantaethau statudol a mudiadau'r trydydd sector yn darparu ymateb cydgysylltiol er mwyn amddiffyn dioddefwyr;

- y ddarpariaeth gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli yn cael ei defnyddio i helpu dioddefwyr er mwyn iddyn nhw wneud dewisiadau gwybodus wrth chwilio am atebion cyfiawnder sifil neu droseddol.

Mae'r cynllun peilot yn darparu cyfarwyddyd ar gyfer asiantaethau ar ffurf 'mapiau proses cyfeirio' (sy'n ystyried galluedd a materion caniatâd) a gweithdrefnau asesu risg. Amlinellir y gwahanol lwybrau cyfeirio yn Atodiad A. Lluniwyd llwybrau aml-asiantaeth i alluogi rheolaeth risg mwy effeithiol, diogelu cleientiaid yn well a sicrhau ymatebion cyflymach a mwy priodol gan asiantaethau pan fydd achosion o gam-drin pobl hŷn yn digwydd.

(iii) Y cyd-destun lleol

Lleolwyd yr astudiaeth yn Abertawe, ardal drefol yn ne orllewin Cymru, gyda sir Gaerfyrddin i'r gogledd a Chastell-nedd Porth Talbot i'r dwyrain. Mae gan Abertawe boblogaeth o tua 231,300, ac mae chwarter ohonyn nhw yn cynnwys pobl 60 oed a throsodd. Gan fod cyfran uchel o bobl hŷn yn yr ardal, dewisodd Gweithgor 'Mynediad i Gyfiawnder' Abertawe i leoli'r cynllun Peilot. Yn 2010, adroddodd Asesiad Gofal Cymdeithasol ac Anghenion Lles Iechyd Abertawe bod Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Abertawe wedi derbyn 13,982 o alwadau yn ystod 2007/08 a hanner o'r rhain (46%) yn dod o Dde Cymru. Merched oedd mwyafrif llethol o'r rhai oedd yn galw (93%).

2. Amcanion a methodoleg yr Ymchwil

(i) Amcanion Allweddol

Ym mis Chwefror 2012, cawson ni'n comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerhusiad proses a chanlyniad o Beilot 'Mynediad i Gyfiawnder' a gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu'r fenter yn fwy effeithiol drwy Gymru gyfan. Wrth ddelio â'r prif nodau hyn roedden ni'n ceisio:

- ystyried y berthynas rhwng lefel y risg a ganfuwyd a'r math o wasanaethau cymorth a'r asiantaethau troseddol/sifil oedd yn rhan weithredol o'r llwybr cyfeirio;
- canfod pa mor fynych y defnyddiwyd Rhestr Wirio Dangosydd Risg DASH (DASH RIC) mewn achosion o gam-drin pobl hŷn;
- dynodi nodweddion yr achosion hynny lle blaenoriaethwyd llwybr cyfiawnder troseddol/sifil ac ystyried y prosesau gwneud penderfyniadau perthnasol;
- darganfod i ba raddau y cadwyd at ofynion y llwybr aml-asiantaethol;
- ystyried sut gallai'r math o gamdriniaeth a'r berthynas rhwng y dioddefwr a'r cyflawnwr ddylanwadu ar ymateb asiantaethau i'r cam-drin;
- llunio ac archwilio 'mapiau proses' er mwyn canfod pa gyfeiriad fyddai cleientiaid yn dewis, gan roi sylw arbennig i ffactorau cyd-destunol ac anghenion penodol cleientiaid;
- dadansoddi effaith materion galluedd o ran trywydd y cyfeirio;
- penderfynu i ba raddau mae'r fenter yn hwyluso 'mynediad i gyfiawnder' ar gyfer pobl hŷn.

(ii) Casglu Data

Mabwysiadwyd cynllun ymchwil aml-ddull oedd yn defnyddio dulliau ansoddol a meintiol i gasglu a dadansoddi casglu data. Casglwyd data o amrywiaeth o ffynonellau:

Cofnodion rheoli achos

Lluniwyd cofnodion rheoli achos (CMRau) yn benodol i gasglu data yn ystod Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'. Cynhaliwyd dadansoddiad meintiol o gynnwys y CMRau er mwyn darparu ystadegau disgrifiadol o'r sampl. Dadansoddiad rhagarweiniol o'r CMR oedd sail cynllun siediwlaau'r cyfweiliadau lled-strwythuredig ansoddol a'r portreadau bychain ar gyfer grŵp ffocws y budd-ddeiliaid. Ceir enghraifft o CMR yn Atodiad B.

Dadansoddiad o ffeiliau achos

Oherwydd mai cipolwg cyfyng mae'r wybodaeth o'r CMRau yn ei rhoi i ni o ddylanwad ac effeithiolrwydd y prosiect peilot, cymerwyd is-sampl o ffeiliau achos unigol a'u hystyried o safbwynt cyfreithiol. Y prif nod oedd canolbwyntio

ar achosion a ystyriwyd yn rhai llwyddiannus o ran cyfiawnder troseddol a/neu sancsiynau sifil ac amlygu enghreifftiau o arferion da. Y bwriad oedd cymharu'r achosion hyn gyda sampl o achosion lle gellid bod wedi ceisio cael remedi cyfiawnder troseddol/sifil ond ni ddigwyddodd hynny ac i ystyried sut roedd materion caniatâd a/neu faterion galluedd yn nodweddion yn y ddwy sampl.

Mapiau proses

Lluniwyd mapiau proses o'r wybodaeth yn y CMRau er mwyn dangos y gwahanol lwybrau drwy'r llwybr cyfeirio a ble roedd cleientiaid yn cyrraedd yn y pen draw. Wrth ddadansoddi'r mapiau proses, talwyd sylw penodol i'r ffaith a oedd gan gleientiaid (a) y galluedd ac wedi rhoi caniatâd i rannu gwybodaeth, (b) â'r galluedd ond heb roi caniatâd, (c) heb y galluedd meddyliol i roi caniatâd.

Cyfweliadau ansoddol

Cafwyd data sylfaenol drwy gyfweliadau lled-strwythuredig ansoddol dros y ffôn gyda gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr a rheolwyr gwasanaethau. Cynhaliwyd ugain o gyfweliadau lled-strwythuredig gyda rheolwyr ac ymarferwyr o unarddeg o grwpiau statudol a naw grwp o'r trydydd sector. Y nifer o'r rhai a gyfwelwyd o bob maes arbenigol: iechyd (5); gwasanaethau oedolion (1) system cyfiawnder troseddol (3), tîm Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth (MARAC) (1); camp-drin domestig (4); pobl hŷn (2); galluedd meddyliol (2); a Pobl Dduon Lleiafrifoedd Ethnig (BME) (1). Mae siediwylau'r cyfweliadau yn Atodiad C.

Gan fod cyfranogiad defnyddwyr yn hanfodol i sicrhau integriti'r ymchwil, gweithiodd y tîm ymchwil yn agos gyda OPAN (Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio) i gael barn pobl hŷn. Cyfwelwyd un deg tri o bobl hŷn (roedd un ohonyn nhw wedi dioddef cam-drin yr henoed), gan ddefnyddio senarios heb ddatgelu eu henwau o'r themâu sy'n digwydd dro ar ôl tro yng nghynnwys y dadansoddiad o'r CMRau. Nid oedd yn fwriad i hon fod yn sampl gynrychiadol. Fodd bynnag, teimlwyd ei bod yn bwysig y byddai o fantais i'r ymchwil gael barn pobl hŷn sef grŵp targed y Peilot. Mae'r un peth yn berthnasol i'r cyfweliad gyda'r dyn o ddioddefwr a ddefnyddir i ddangos un math o ymateb i gam-drin yr henoed.

Grŵp ffocws budd-ddeiliaid

Roedd y grŵp ffocws yn cynnwys saith o ymarferwyr a rheolwyr. Defnyddiwyd ystod o ddulliau i ganfod syniadau unigolion am achosion 'llwyddiannus'. Gofynnwyd i'r grŵp ystyried ymatebion aml-asiantaeth i gam-drin yr henoed mewn sefyllfaoedd lle ceir perthynas rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr. Defnyddiodd hwylusydd y grŵp bortreadau bychain (wedi'u seilio ar ddata o'r CMRau a'r cyfweliadau lled-strwythuredig) i ystyried llwybrau cyfeirio a dadansoddi'n systematig wahanol gyfnodau llwybrau'r defnyddwyr gwasanaeth drwy'r broses cyfeirio o'r cyswllt cychwynnol i ddiwedd yr achos. Drwy ddefnyddio'r dull hwn ceir gwell dealltwriaeth o (a) i ba raddau mae

nodweddion unigol person hŷn a ffactorau cyd-destunol yn effeithio ar y llwybr cyfeirio a hawl y dioddefwr i gyfiawnder a (b) sut mae gwahanol asiantaethau/ymarferwyr wedi gweithio'n agos gyda'r Peilot drwy ystyried cryfderau a chyfyngiadau arferion aml-asiantaethau yn y maes hwn. Ar ddiwedd sesiwn y grŵp ffocws, cafodd ymarferwyr unigol gyfle i ystyried eu profiadau a/neu ychwanegu unrhyw sylwadau eraill.

Data cymharol

Er mwyn ystyried effaith y prosiect Peilot cafwyd hawl i weld y data a gofnodwyd gan yr heddlu ar gyfer ardal y Peilot (h.y. Abertawe a Chastell-nedd a Phort Talbot) dros gyfnod o dair blynedd o Ionawr 2008 tan ddiwedd Rhagfyr 2010. Er y cawson ni beth gwybodaeth ddefnyddiol o'r bas data at bwrpas cymharu, doedd hi ddim yn ddigon cadarn i gynorthwyo cynllun ymchwil adolygol, di-arbrawf cyn ac ar ôl ymchwil ar gyfer asesu effeithiolrwydd yr ymyrraeth.

(iii) Dadansoddi Data

Cafodd data meintiol o'r CMRau a ffynonellau perthnasol eraill eu codio a'u dadansoddi. Recordiwyd y data ansoddol a gafwyd o'r cyfweiliadau, ffurflenni'r CMRau a grŵp ffocws budd-ddeiliaid, eu trawsgrifio a'u codio ac yna eu dadansoddi'n systematig a thematig gan ddefnyddio pecyn meddalwedd cyfrifiadurol 'Nvivo'.

3. Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'

(i) Gweithredu a hyfforddi

Lansiwyd strategaeth 'Mynediad i Gyfiawnder' fis Mawrth 2010 pan sefydlwyd gweithgor gyda chynrychiolwyr o'r mudiadau canlynol: Age Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Comsiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Cymorth i Ddefnyddwyr, Anabledd Cymru ac Uned Diogelwch i Ferched Caerdydd. Cynhyrchodd y gweithgor ddogfen gyfarwyddyd gychwynnol yn amlinellu'r prosiect Peilot. Ar ôl ymgynghori, cytunwyd mai Abertawe gyda'i chyfran gymharol uwch o bobl dros 60 oed o'i gymharu â mwyafrif o ardaloedd trefol eraill, fyddai lleoliad y Peilot. Cysylltwyd â nifer o sefydliadau lleol statudol a'r trydydd sector i geisio sicrhau y bydden nhw'n cymryd rhan a datblygwyd rhaglen hyfforddi i gynorthwyo cyflenwi'r prosiect Peilot. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi gychwynnol ym mis Tachwedd 2010 a mynychwyd y sesiwn hyfforddi gan dros 30 o gynrychiolwyr o 15 o wahanol sefydliadau. Dewiswyd y cynrychiolwyr o drawstoriad da o asiantaethau statudol a gwirfoddol gyda diddordebau cyffredinol ac arbenigol yn cael eu cynrychioli. Cynhaliwyd hyfforddiant ar ddefnyddio fersiwn ddiwygiedig o arf asesu risg DASH mewn dwy sesiwn hyfforddi ar wahân ym Mehefin 2011 i dros 30 o staff y gwasanaethau cymdeithasol.

Yn seiliedig ar dystiolaeth ddogfennol, adborth o sesiynau hyfforddi a data o'r cyfweiliadau ansoddol gwnaed yr arsylwadau canlynol:

- cafodd yr hyfforddiant cychwynnol dderbyniad da iawn a lansiwyd y Peilot yn llwyddiannus. Cafwyd sylwadau positif gan y rhai a gyfwelwyd am y cyflwyniad trylwyr o wybodaeth perthnasol iawn am gam-drin yr henoed gan amrywiaeth o arbenigwyr. Ar ben hynny, dywedon nhw sut roedd y cwrs hyfforddi wedi eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r ffaith bod rhai mathau o gam-drin yr henoed yn wahanol iawn o ran natur a chyd-destun i'r hyn yr ydyn ni'n ystyried yn 'gam-drin domestig'.
- cafodd yr hyfforddiant ar ffurf ddiwygiedig o DASH RIC hefyd dderbyniad da gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- tybiai rhai o staff y trydydd sector a staff rheng flaen y byddai o fudd cael sesiynau 'hybu' pellach o ran defnyddio camau gweithredu cyfreithiol sifil a rhagor o wybodaeth am rôl MARAC, Yr Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) a'r Eirolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA).³
- ar y cychwyn, roedd rhai asiantaethau statudol yn araf i fod yn rhan o'r Peilot. Hefyd, mewn rhai achosion, ni anfonodd y sefydliadau y personél priodol i'r sesiynau hyfforddi i sicrhau bod y wybodaeth a gafwyd yn cael ei rhannu'n effeithiol drwy'r sefydliad.

³ Ceir disgrifiad o rolau MARAC, IDVA ac IMCA yn ei tro yn Atodiad E .

- Roedd pawb yn amlwg yn cydnabod ac yn cefnogi ethos sylfaenol Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' a rôl yr uwch ymgynghorydd polisi yn yr holl broses weithredu.


(ii) Proffil dioddefwyr

Cofnodwyd cyfanswm o 145 o achosion gwahanol, yn cynnwys 131 o ddioddefwyr unigol rhwng 3 Rhagfyr 2010 a 31 Ionawr 2012. Roedd data ar gael ar gyfer 127 o ddioddefwyr y cwblhawyd CMRau ar eu cyfer (mewn 4 achos nodwyd yn Adran C ar y ffurflen gofnodi bod ail ddioddefwr yn bresennol ar adeg y digwyddiad sy'n golygu bod y Peilot wedi delio â chyfanswm o 131 o ddioddefwyr).

O'r 131 o ddioddefwyr roedd 95 yn ferched (73%) a 36 yn ddynion (27%), datgelodd gwybodaeth am y 127 o ddioddefwyr o'r CMRau y canlynol:

- bod yr oed yn amrywio o 55 i 91 (gweler Ffigwr 1);
- cofnodwyd pump yn BME (sy'n cynrychioli 4% o'r holl ddioddefwyr);
- cofnodwyd un yn lesbiad, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT);
- roedd gan bron i draean (41) anabledd; (cofnodwyd bod gan (32%) o'r merched [30] and 29% o ddynion [11] anabledd;
- cofnodwyd bod diffyg galluedd meddyliol gan 10 unigolyn.

Ffigwr 1: Oedran a rhyw y dioddefwyr



Mae proffil cyffredinol dioddefwyr hŷn yn wahanol i'r hyn a geir fel arfer yn ystadegau'r hedddlu ar achosion o gam-drin domestig ar gyfer pob grŵp oed. Amcangyfrifir mewn unrhyw flwyddyn mewn dros 90% o achosion o gam-drin domestig mai merch ydy'r dioddefwr (Hester, 2009: 2). Mewn cyferbyniad, yn y sampl o ddioddefwyr o gam-drin yr henoed, roedd dros chwarter (27%) yn ddynion. Felly mae nifer yr achosion o drais domestig yn erbyn dynion hŷn yn uwch na'r disgwyl, yn enwedig o gofio'r gwahaniaeth yn nisgwyliad oes rhwng

dynion a merched (78.44 ac 82.47 oed yn eu tro) a maint cymharol y garfan o ferched/dynion ymhob band oed dros 60 oed. O gymharu dynion a merched, profodd cyfran uwch o ddynion (56%) drais corfforol na merched (33%). Mewn nifer o achosion, roedd dioddefwyr o ddynion wedi dioddef camdriniaeth dros gyfnod maith. Efallai ei bod hi'n bosibl bod dynion ym amharod i'w ddatgelu oherwydd y stigma o fod yn ddyn sy'n dioddef o gam-drin domestig. Pan ofynnwyd i'n cyfwelai a oedd yn teimlo bod cam-drin domestig yn wahanol i ddynion a merched, dyma oedd ei ateb:

'Wel, mae'n wahanol mewn rhai ffyrdd ond dyw e, a'r un peth mewn ffyrdd eraill. I ddynion fel fi, dwi'n meddwl ei bod wedi cymryd amser hir i mi siarad am y peth. Nhw [dynion] sy fod gryfa ynte, y syniad os na dych chi'n hen ac yn hen ŵr ffôl fel fi, nad ydych chi fod i gael eich twyllo gan bobl eraill ond yn anffodus rydyn ni. Ar y dechrau roedd hi'n dweud, "Fyddden i ddim yn mynd allan heno 'sen ni chi, fydde fe'n ormod i chi. Fe af i". Yn raddol dros amser es i i 'nghornel a chwato. Yn y bôn ... dwi'n meddwl bod chi'n dweud llai a goddef mwy efallai.'

(Dioddefwr o ddyn)


Mae amharodrwydd dynion hŷn i gyfaddef eu bod yn cael eu cam-drin yn awgrymu y gallai'r broses o helpu dioddefwyr o ddynion ddatgelu maint eu camdriniaeth gymryd hirach.

(iii) Nifer a mathau o achosion o erledigaeth

O'r 131 o ddioddefwyr, un achos a gofnodwyd dros gyfnod o ddeuddeg mis ar gyfer dros dri chwarter ohonyn nhw. Cofnodwyd bod cyfanswm o 16 o unigolion (12%) yn ddioddefwyr mynych. O'r grŵp hwn datgelodd y CMRau bod gan 14 unigolyn ddau achos ar wahân yr un o erledigaeth wedi'u cofnodi, roedd un dioddefwr wedi profi tri digwyddiad a chofnodwyd bod un dioddefwr wedi dioddef ar bedwar achlysur ar wahân.

Mae Ffigur 2 isod yn dangos y math o gam-drin yn yr 104 achos lle cofnodwyd un math yn unig o gamdriniaeth yn y CMR. Y mathau mwyaf cyffredin o gamdriniaeth oedd cam-drin emosiynol a chorfforol. Yn achos dioddefwyr o ferched, mewn dros hanner o'r achosion (53%) cam-drin emosiynol a welwyd ac mewn traean o'r achosion roedd yn gorfforol. Yn achos dynion, roedd cam-drin corfforol yn fwy cyffredin na cham-drin emosiynol ac yn cyfrif am 54% a 43% o achosion yn eu tro lle cofnodwyd un math yn unig o gamdriniaeth.

Ffigwr 2: Un math o gam-drin, yn cael ei ddangos ar y CMR yn ôl rhyw



Mae Tabl 1 yn dangos y nifer o ddioddefwyr a brofodd fwy nag un math o gamdriniaeth. Roedd hyn yn wir am 27 o unigolion neu 21% o'r holl ddioddefwyr. O ystyried rhyw, roedd 22% o ferched a 16% o ddynion wedi dioddef dau fath neu fwy o gamdriniaethau.

Tabl 1: Dau neu dri math o gamdriniaeth a nodwyd ar CMR'au unigol yn ôl rhyw.

<i>Mathau o gamdriniaeth</i>	<i>Merched</i>	<i>Dynion</i>	<i>Cyfanswm</i>
Dau fath o gamdriniaeth			
Corfforol ac emosiynol	7	2	9
Corfforol ac ariannol	1	-	1
Corfforol ac esgeulustod	1	-	1
Ariannol ac emosiynol	5	1	6
Ariannol ac esgeulustod	-	1	1
Cyfanswm	14	4	18
Tri math o gamdriniaeth			
Corfforol/ariannol/emosiynol	4	2	6
Corfforol/ariannol/esgeulustod	1	-	1
Emosiynol/ariannol/esgeulustod	2	-	2
Cyfanswm	7	2	9

Canfuwyd mewn chwarter o'r holl achosion mai un ffactor oedd yn gwneud y sefyllfa'n waeth oedd bod y cyflawnwr wedi bod yn yfed alcohol; mewn naw o'r achosion hyn nodwyd hefyd gamddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Mewn cyfanswm o 23 o achosion roedd yn hysbys bod y cyflawnwr ar gyffuriau. Dim ond mewn un achos cafwyd tystiolaeth bod y dioddefwyr a'r cyflawnwr dan ddylanwad alcohol ar adeg y digwyddiad. Mae patrwm

camddefnyddio sylweddau yn ymddangos yn wahanol i'r hyn gafwyd mewn achosion o gam-drin domestig ymhlith grwpiau iau o ran oed

(iv) Nodweddion Cyflawnwyr

Ymhob achos namyn pedwar, roedd hi'n bosibl penderfynu ar ryw'r cyflawnwr o'r wybodaeth yn y CMR: roedd 109 yn ddynion a 44 yn ferched, a hynny'n cynrychioli 71% a 29% yn eu tro. Mae'r dosbarthiad hwn yn llai pendant wrth ddelio â cam-drin domestig yn gyffredinol, lle amcangyfrifir mai dynion ydy dros 90% o gyflawnwyr yn ôl yr hyn y mae'r heddlu wedi'u gofnodi (Hester, 2009: 2). Mewn nifer o'r achosion hyn mae'r trais yn digwydd rhwng partneriaid agos iawn, lle mae un partner yn ceisio trechu a rheoli'r partner arall. Nid hwn oedd y patrwm mwyaf cyffredin a ganfuwyd yn sampl cam-drin yr henoed o ystyried natur y berthynas rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr. O'r cyflawnwyr o ddynion, roedd 50 (46%) yn feibion a 20 (18%) yn wyrion. Roedd cyfanswm o 27 (25%) yn wŷr a phump (4.5%) yn bartneriaid.

Mae'r data yn dangos y canlynol:

- Os mai'r fam oedd y dioddefwr, roedd hi'n fwy tebygol mai'r mab oedd y cyflawnwr a cham-drin emosiynol oedd y cam-drin sylfaenol a cham-drin ariannol yn nodwedd eilaidd.
- Roedd meibion yn y sampl yn fwy tebygol o fod yn camddefnyddio sylweddau nag unrhyw gyflawnwyr eriall.
- Os mai gwraig/gŵr/cyn-wraig/cyn-wŷr neu bartner/cyn-bartner oedd y dioddefwr roedd tuedd i'r cam-drin fod yn un corfforol.
- Os mai'r tad oedd y dioddefwr, roedd hi'n fwy tebygol mai meibion oedd y cyflawnwyr a'r camdriniaeth yn fwy tebygol o fod yn un emosiynol yn hytrach na chorfforol.
- Os mai'r gŵr neu'r wraig oedd y dioddefwr, roedd y cam-drin yn bennaf gorfforol ar ran y ferch o gyflawnwr; priodolwyd hyn mewn hanner o'r achosion i 'straen gofalwr'
- Os mai merched (a merched yng nghyfraith) oedd y cyflawnwyr roedd ganddyn bob un ohonyn nhw namyn un gyd-gyflawnwr.
- O'r deg cyflawnwr a gafwyd yn euog, roedd pump yn wyrion a phedwar yn feibion.
- Yr achosion oedd fwyaf tebygol o gael y canlyniadau gwaethaf o ran lles ac ymyrraeth gyfreithiol oedd y rhai hynny lle cafwyd tystiolaeth o gam-drin partner agos iawn a hynny'n gam-drin tymor hir

Cyflawnwr – perthynas â'r dioddefwr

O ystyried y data ar amgylchiadau'r 131 dioddefwr yn yr astudiaeth Beilot, cafwyd tystiolaeth bod rhai dioddefwyr wedi gofyn am help i'r cyflawnwr, yn

enwedig os mai mab, merch neu ŵyr i'r dioddefwr oedd e/hi. Roedd nifer o'r achosion yn amlygu cymhlethdod y berthynas rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr.

'Maen nhw'n dymuno i'r berthynas barhau oherwydd eu bod am helpu eu mab. Maen nhw'n cael eu targedu oherwydd bod eu mab am gynnal ei ddibyniaeth ar gyffuriau. Maen nhw'n meddwl eu bod yn gofalu am eu mab. Mae'r fam wedi'i dal rhwng dwy stôl, ar un llaw eisiau helpu ei mab ac ar y llaw arall mewn penbleth a fyddai reportio'i mab yn ei drosaedddoli ymhellach ac a fydden nhw'n dioddef mwy o dynnu sylw at y cam-drin. Felly, pan maen nhw'n dweud eu bod yn byw bywyd hapus, ydyn nhw'n dweud y gwir yn onest? rahid i chi geisio deall cymhellion y fam – mae angen i ateb helpu'r ddau ohonyn nhw oherwydd eu bod yn dibynnu cymaint ar ei gilydd y naill ar y llall.'

(Rheolwr cyfiawnder troseddol: 2)

Mae data o'r CMRau yn awgrymu y gallai ymarferwyr ddatrys y broblem yn gyflym i wella pethau mewn sefyllfa lle mae'r cam-drin yn digwydd oherwydd straen gofalwr. Fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd lle nad canlyniad i straen gofalwr ydy'r cam-drin, tuedd asiantaethau oedd mabwysiadu dull seiliedig-ar-symptomau o fynd ati, gan weithio gyda'r dioddefwr yn unig, ac yn aml heb geisio cynnwys y cyflawnwr sydd efallai ag anghenion cymhleth (megis anghenion iechyd meddyliol neu broblemau camddefnyddio sylweddau). Teimlwyd gan ystod o ymarferwyr bod angen dull mwy holistaidd o fynd ati i atal y cam-drin, gan ddelio ag achos y cam-drin, hyd yn oed os byddai'n golygu dod o hyd i ddulliau o ddelio ag unigolion gelyniaethus:

Bu dad yn berson gormesol erioed; awgrymodd y mab a'r ferch ei fod wedi ymddwyn yn dreisgar tuag at ei fam yn y gorffennol, cadwon hw hynny yn y teulu. Dim ond ystod y blynyddoedd diwethaf daeth y cam-drin i sylw'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, mae'r achos hwn wedi bod yn mynd ymlaen ers amser. Mae'r dyn hwn yn unigolyn bygythiol iawn, cymeriad grymus iawn, yn eithaf dylanwadol yn lleol. Galwyd yr heddlu ar ddau achlysur a'i gyhuddo o ymosod ar y fam ond bu rhaid gollwng yr achos oherwydd prinder tystiolaeth. Mae e'n rymus a dydyn ni ddim eto wedi dysgu delio â hyn – delio â phobl fel y dyn hwn.'

(Arbenigwr ar Iechyd Meddyliol: 2)

Wrth ystyried y dioddefwr – o safbwynt y cyflawnwr, nodwyd yn fras ddau fath o ymddygiad cyflawnwyr: ymddygiad y cyflawnwr adweithiol ac ymddygiad y cyflawnwr rhagweithiol⁴. Dydy'r mathau hyn o ymddygiad ddim yn annibynnol ar ei gilydd. Roedd hi'n ymddangos bod ystod o gymhellion a allai, yn ôl barn ymarferwyr, symud tuag at weithgaredd mwy rhagfwiadol dros gyfnod ymestynnol o amser.

⁴ Mae'r rhain yn debyg i gymhellion cyflawnwyr adweithiol a rhagweithiol a ddisgrifiwyd gan Davies *et al.*, (2011).

Ymddygiad cyflawnwr adweithiol

Mae'r data ansoddol a meintiol yn awgrymu y gall cam-drin yr henoed ddeillio yn aml o gyflawnwyr yn ymateb yn negyddol i'w hamgylchiadau eu hunain a/neu'n dioddef o 'straen gofalwr' sef methu ag ymdopi'n ddyddiol â gofalu am y dioddefwr. Gall fod gan gyflawnwyr adweithiol hefyd anghenion iechyd meddyliol a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau.

Yn ein sampl o 50 mab a 21 merch, gellid rhoi 48% o feibion a 40% o ferched yn y categori adweithiol, yn aml o ganlyniad iddyn nhw fod yn gaeth i alcohol neu gyffuriau. Nodwyd yn aml bod meibion a merched yn bygwth eu rhieni ar lafar ac yn eu cam-drin yn emosiynol er mwyn cael arian. Hefyd, cafwyd enghreifftiau lle roedd gan y mab neu'r ferch anghenion iechyd meddyliol ac yn methu ag ymdopi gydag amgylchiadau eu bywyd, yn enwedig os oedden nhw'n gofalu am riant oedrannus.

Mewn 49 o achosion lle mai gŵr neu'r wraig neu'r cyn-wr neu wraig oedd y cyflawnwr (33 o ddynion ac 16 o ferched), dim ond 27% a ganfuwyd eu bod yn gyflawnwyr adweithiol oedd yn dioddef o straen gofalwr. Dim ond un gofalwr oedd yn defnyddio alcohol ac roedd un yn defnyddio cyffuriau.

Roedd tuedd i wyrion (roedd 21 yn y sampl) fod yn gyflawnwyr mwy adweithiol na rhagweithiol yn eu hymddygiad. Pan oedd cam-drin yn digwydd, yn aml roedd yn ganlyniad i dor-berthynas rhyngddyn nhw a'u rhieni ac roedden nhw'n teimlo eu bod wedi'u heithrio mewn ryw ffordd o'u perthynas agosaf. Yn aml, byddai wyrion yn ymosod yn gorfforol ar eiddo'u nain neu eu taid yn hytrach na'u cam-drin yn gorfforol. Os oedd wyrion yn cam-drin er mwyn lladrata arian oddi wrth eu nain neu eu taid, roedden nhw'n dueddol i weithredu ar fyrder ac achub ar y cyfle yn hytrach na'i ragfwriadu a chynllunio ymlaen llaw. Cafwyd enghreifftiau yn y ffeiliau achos lle roedd y nain neu'r taid wedi ymyrryd yn gorfforol mewn cweryl deuluol ac o ganlyniad, wedi anafu eu hunain ar ddamwain.

Ymddygiad cyflawnwyr rhagweithiol

Pan gafwyd ymddygiad rhagweithiol ar ran y cyflawnwr, roedd tystiolaeth bod y camp-drin wedi digwydd dros gyfnod lawer hirach. Gallai cyflawnwyr fod yn adweithiol ar y cychwyn ond gallai newid yn amgylchiadau'r dioddefwr neu'r cyflawnwr sbarduno ymddygiadau mwy rhagfwriadol. Nododd ymarferwyr fod cyflawnwyr yn ymddangos yn llawer mwy rhagweithiol pan oedd gan y dioddefwr alluedd cyfnewidiol neu ddiffyg galluedd.

Defnyddiodd y cyflawnwyr hyn ystod o strategaethau i guddio'r cam-drin ac ynysu'r dioddefwr rhag ymyrraeth o'r tu allan megis osgoi apwyntiadau, ymddwyn yn elyniaethus ac ymosodol tuag at ymarferwyr a bygwth cyfreithia.

Mae'r data yn dangos bod 36 (73%) o wŷr a gwragedd/cyn wŷr a gwragedd yn ymddwyn yn rhagweithiol a'r achosion hyn oedd â'r lefel uchaf o drais corfforol yn yr holl sampl. Cyfeirwyd pum o'r achosion hyn i'r MARAC (i gyd rhai gyfeiriwyd gan yr heddlu). Fodd bynnag roedd tystiolaeth mai cyfyngedig iawn oedd yr ymyrraeth mewn 18 achos o'r 36; gwasanaethau oedolion oedd yr asiantaeth y cysylltwyd â hwy gyntaf ac ni chyfeirwyd neb at MARAC.

Pan oedd cyflawnwyr wedi cynllunio'u gweithredoedd ymlaen llaw (fel yn achos cyflawnwyr cam-drin domestig ymhlith y grwpiau iau), yn aml byddai'r dioddefwr yn gwrthod rhoi caniatâd. Yn yr achosion hyn, ni ddefnyddiwyd yr opsiwn i gychwyn proses MARAC lle gellir osgoi'r cam o gael caniatâd i rannu gwybodaeth.

Fel is-grŵp, canlyniadau partneriaid agos iawn oedd y rhai gwaethaf a doedd dioddefwyr unigol ddim yn gallu manteisio ar ystod ehangach o ddulliau diogelwch a geir ym mhroses MARAC. Mewn un achos o bob tri o'r achosion hyn cafodd y dioddefwr ei gam-drin/cham-drin dros gyfnod maith o'r berthynas. Mae effaith penderfyniadau dioddefwyr sydd wedi dioddef gamdriniaeth dros gyfnod hir yn amheus. Elfen hanfodol o'r gwneud penderfyniadau ydy mai penderfyniad y dioddefwr ei hun o'i wirfodd ydy e; gallai rhoi pwysau ar y person yn enwedig gan rhywun â grym a dylanwad (sy'n wir mewn perthynas gamdriniol tymor hir) wneud y penderfyniad yn annilys. Yn ddiweddar, ail-gadarnhaodd y Llys Apêl bod yr awdurdodaeth gynhenid ar gael i amddiffyn pobl sydd â galluedd efallai, ond yn cael eu hatal rhag dewis o'u gwirfodd oherwydd dylanwad gormodol (gweler *A Local Authority and others v DL* [2012] All ER (D) 211 [Mar]). Yn ddiethriad, mae dylanwad gormodol yn nodwedd o berthynas gamdriniol, yn enwedig os ydy'r gamdriniaeth wedi parhau dros gyfnod sylweddol.

4. Llwybrau Cyfeirio

Wrth ystyried gwaith y Peilot, talwyd sylw penodol i asesu risg, caniatâd, galluedd meddyliol, llwybrau cyfeirio ac ymglymiad gweithredol. Mabwysiadodd y tîm ymchwil y term olaf hwn i ddiffinio sefyllfa lle mae dioddefwyr yn gweithio'n agos gyda'r asiantaeth y cyfeiriwyd nhw ati.

O'r 152 achos o gam-drin yr henoed a gofnodwyd yn y CMRau, yr asiantaethau roedd pobl yn troi atyn nhw gyntaf oedd cyntaf: yr heddlu (98), gwasanaethau cymdeithasol (48), ysbytai lleol (3), Age Cymru (2) meddyg teulu (1). Mae'r data yn awgrymu bod cam-drin domestig (emosiynol, corfforol, ariannol a rhywiol) a/neu esgeulustod yn bresennol ar ryw ffurf neu'i gilydd ymhob achos namyn 12. Roedd y 12 achos hyn lle mai'r heddlu oedd yr asiantaeth gyswllt gyntaf, yn cynnwys 11 digwyddiad bach iawn ac un ffug alwad.

(i) Asesu Risg

Y defnydd o'r DASH RIC gan yr asiantaeth gyswllt gyntaf

Arf aml-asiantaeth ydy DASH RIC (Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu 'er Anrhydedd': Rhestr Wirio Dangosydd Risg) a ddefnyddir ar draws y DU i asesu risg mewn achosion o gam-drin domestig (gweler www.caada.org.uk). Pwrpas y rhestr wirio ydy darparu arf syml a chyson ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion sy'n dioddef o gam-drin domestig i ganfod y rhai sydd mewn perygl uchel o gael eu niweidio. Caiff pob asiantaeth statudol rheng flaen a sefydliadau'r trydydd sector sy'n dod i gysylltiad ag unigolion sydd efallai'n dioddef camdriniaeth domestig y cyfle i dderbyn hyfforddiant DASH yn rheolaidd yn eu hardal leol.

Caiff unigolion a asesir gan DASH RIC fel rhai rusg uchel eu cyfeirio i mewn i Gynhadledd Asesu Risg Aml Asiantaeth (MARAC). Caiff achosion uchel eu risg eu monitro'n ofalus gan y MARAC a sefydlir mesurau i roi blaenoriaeth i ddiogelu'r dioddefwr. Cyfeirir dioddefwyr a asesir gan DASH RIC eu bod dan risg ganolig ac isel at Gymorth i Ddioddefwyr a dydyn nhw ddim yn mynd i mewn i broses MARAC onibai bod lefel y risg yn cynyddu. Caiff dioddefwyr y tybir eu bod yn uchel eu risg y cyfle i weithio gydag Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) sy'n rhoi adborth yn ôl i broses MARAC. Mae'r IDVA yn gweithio'n agos gyda'r dioddefwyr er mwyn sicrhau bod eu holl anghenion lles yn cael eu cyflawni drwy gysylltu ag ystod o asiantaethau ar ran y dioddefwr. Mae'r IDVA yn trafod gyda'r dioddefwr y cyfleoedd i sicrhau cyfiawnder, fel bod y dioddefwr yn wybodus am yr ystod opsiynau sifil a throeddol sydd ar gael iddyn nhw. Mae'r IDVA hefyd yn cynorthwyo'r dioddefwr drwy broses y llys.

Mae'n hanfodol bod asesiad risg cychwynnol DASH yn gywir er mwyn hwyluso cyfeirio'r dioddefwr i lwybrau MARAC/IDVA. Mae cynnal DASH RIC yn darparu mynediad i ddioddefwyr, sydd yn aml wedi'u hynysu o ganlyniad i'r cam-drin, i gymorth holistaidd o ran remediau lles a chyfiawnder.

Ffurf generig ydy'r DASH RIC ar gyfer asesu risg mewn achosion o gam-drin domestig. Efallai nad ydy'r adran honno sy'n cynnwys cwestiynau ar feichiogrwydd a phlant yn berthnasol i rai dioddefwyr megis menywod heb blant, unigolion o dan 18 oed a dioddefwyr hŷn. Yn ystod cyfnod gweithredu'r Peilot, dywedodd rheolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol y dylai rhai adrannau o arf DASH RIC gael eu haddasu yn achosion o gam-drin yr henoed er mwyn sicrhau mwy o ddibynadwyedd wrth asesu risg gyda phobl dros 60 oed. Mewn ymateb i'r cais hwn, adolygodd yr uwch ymgynghorydd polisi oedd yn rhan o'r peilot ar y cyd ag arbenigwr ar gam-drin domestig yr arf asesu risg. Darparwyd hyfforddiant ar ddefnyddio'r arf diwygiedig ar gyfer personél y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yr Asiantaethau eraill megis yr heddlu oedd yn rhan o'r Peilot yn fodlon gyda'r arf cyffredinol gwreiddiol gan ei ddefnyddio drwy gydol cyfnod y Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'.

Cwblhau'r DASH RIC

Ar draws pob asiantaeth, cwblhawyd 66 ffurflen allan o'r 141 achos tebygol o gam-drin yr henoed (heb gyfri'r 11 achos dibwys): yr heddu lanwodd 58 o'r ffurflenni DASH, sy'n cynrychioli 6 o bob 10 achos lle mai nhw oedd yr asiantaeth cyswllt cyntaf (58 allan 96 achos). Roedd y gwasanaethau cymdeithasol, fel yr asiantaeth cyswllt cyntaf, wedi cwblhau asesiadau risg DASH ar ddim ond chwech allan o 43 achos (14%). Cafodd un ffurflen DASH RIC ei llanw gan feddyg teulu ac un mewn ysbyty.

Nododd nifer o ymarferwyr rheng flaen ac asiantaethau'n arbenigo mewn cam-drin domestig bod asiantaethau eraill (statudol a thrydydd sector) yn debyg o golli cyfleoedd i ddarganfod achosion o gam-drin yr henoed ac asesu risg.

'Yn amlwg, roedd yr holl beth wedi'i ganoli ar asesiad risg DASH, roedd nifer o sefydliadau heb glywed amdano nac wedi gweld na defnyddio dim byd tebyg iddo. Dydy'r cwestiynau ynddo ddim yn hawdd, felly roedd yn newid mawr yn y dull y gofynnwyd i fudiadau weithio. Roedd rhai mudiadau wedi bod yn eu defnyddio ers tro, felly doedd hi ddim yn broblem. Nawr, [ers y Peilot] mae pob sefydliad yn gwybod dut y dylen nhw fod yn gweithio mewn achosion o gam-drin domestig. I raddau mae proses o hunan reoli yn mynd ymlaen hefyd. Os na fydda i'n defnyddio'r asesiad risg hwn, bydd sefydliadau eraill yn mynd i wybod o hyn o ymlaen. Rydyn ni'n rhoi hyfforddiant iddyn nhw ar ba mor bwysig ydy e a sut i ddefnyddio hwn – mae'n llwybr i'r IDVA ac arbenigwyr eraill, mae'n rhoi mwy o ddewis i'r dioddefwyr.'

(Rheolwr gwasanaeth cam-drin domestig)

'Os ydy menyw yn mynd i'r adran Ddamweiniau ac Argyfwng a'r meddygon yn amau ei bod wedi cael ei cham-drin, yna, dylen nhw ofyn y cwestiynau perthnasol a chynnal asesiad DASH. Dwi'n credu nad ydy maes iechyd wedi ymgysylltu â'r prosiect hwn ac am ryw reswm yn ei chael hi'n fwy anodd i'w wneud (mewn) sefyllfaoedd aciwt a hefyd yn y gymuned [megis] meddygon teulu a nyrsys ardal. Dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iawn bod y bobl hyn [ymarferwyr] sy'n dod i gysylltiad â phobl

agored i niwed, y rhai sydd wedi'u hynysu fwyaf yn deall eu rôl yn well yn y maes hwn. Mae angen i faes iechyd fynd i'r afael â hyn i'w ddatrys.'
(Uwch reolwr gwasanaeth yr henoed: 1)

Mae data o'r cyfweiliadau ansoddol yn awgrymu nad oedd rhai rheolwyr ac ymarferwyr yn meddwl bod arf cyfredol DASH RIC bob amser yn gallu asesu risg yn gywir o ran cam-drin yr henoed. Teimlai'r rhan fwyaf o reolwyr ac ymarferwyr fod angen addasu ychydig ar yr arf i gwrdd ag anghenion pobl hŷn:

'Dw i ddim yn meddwl dylai fod fersiwn o DASH RIC ar wahân. Dw i'n meddwl bod angen ei addasu, mae'n adnabyddus ac yn cael ei barchu. Mae wedi cael ei ddefnyddio ers tro byd. Dw i'n meddwl mai gofyn y cwestiynau iawn sydd ei angen.... oherwydd bod bywydau pobl hŷn yn wahanol iawn, mae eu hanghenion yn wahanol iawn. Gallai'r hyn sy'n digwydd iddyn nhw o ran cam-drin domestig fod yn wahanol iawn. Dw i'n credu ei bod yn bwysig sylweddoli hyn fel bod yr arfau yn addas i'r diben.'

(Uwch reolwr gwasanaeth yr henoed: 2)

Nododd cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol bod well ganddyn nhw ddefnyddio'u gweithdrefn asesu risg eu hunain i asesu cam-drin domestig ymhlith pobl hŷn ac nad oedd y Peilot wedi gwella arferion:

'Ddim wedi fy argyhoeddi'n llwyr bod pethau wedi gwella, i ddiogelu pobl mae gennym arf asesu risg, mae'n rhan o'r prawf, yn ystod y Peilot mabwysiadon ni arf ddiwygiedig DASH ond y rhain oedd y cwestiynau roedden ni'n eu gofyn beth bynnag. Ron i am ystyried a oedd hwn [DASH] yn ychwanegu at ein pecyn cymorth a dwi ddim wedi cael fy argyhoeddi'n llwyr nad oedd eisoes drefn mewn bodolaeth i ganfod risg mewn pobl hŷn yn briodol.'

(Uwch weithiwr cymdeithasol)

Fodd bynnag, gallai peidio â defnyddio'r DASH RIC olygu na chyfeiriwyd pobl hŷn a aseswyd yn risg uchel i broses MARAC/IDVA a allai effeithio ar eu mynediad i ystod o wasanaethau cymorth a chyfiawnder ac opsiynau lles.

Datblygwyd fersiwn ddiwygiedig o DASH RIC a hyfforddwyd personél y gwasanaethau cymdeithasol i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, gan mai chwe ffurflen yn unig o'r DASH diwygiedig a ddychwelyd wedi'u cwblhau gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod cyfnod y peilot, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliad cadarn a oedd yr arf ddiwygiedig yn darparu mesur mwy cywir o risg yng nghyd-destun cam-drin pobl hŷn.

Asesiadau DASH a lefel y cam-drin

Mewn o leiaf 30 achos, o gofio difrifoldeb y digwyddiad a ddisgrifiwyd yn Adran C o'r cofnod rheoli achos (CMR), roedd lefel y risg a nodwyd yn Adran B yn is na'r disgwyl. Gallai hyn awgrymu nad oedd asesiad yr asiantaeth gyswllt gyntaf ddim bob amser yn adlewyrchu'n gywir wir lefel y risg.

Rhoddodd ymarferwyr ystod o resymau pam nad oedd asesiadau risg ddim bob amser yn adlewyrchu lefel y cam-drin. Ymhlith y rhain roedd bylchau yn narpariaeth y gwasanaeth, diffyg gwybodaeth a hyfforddiant am amrywiaeth y profiadau o gam-drin domestig a chanfyddiad pobl hŷn o gymdeithas.

'... efallai oherwydd nad yw cam-drin yr henoed mor amlwg â'r cam-drin domestig nodweddiol, efallai nad yw'r person hŷn yn ei gyfleu yn yr un modd. Efallai hefyd nad oedd pobl am ystyried y syniad bod mab yn curo'i fam yn ddi-drugaredd ac yn adlewyrchiad o'n cymdeithas a'i chyflwr, byddai'n well ganddyn gredu nad ydy hyn yn digwydd. Byddai'n well ganddon ni beidio â'i weld. Felly ai'r rheswm nad ydyn ni'n gofyn y cwestiynau ydy oherwydd ein bod yn gwrthod derbyn yr hyn sy'n digwydd neu os yw'n digwydd bod rhaid i ni wneud rhywbeth yn ei gylch? Dw i ddim yn siŵr bod pobl hŷn yn flaenoriaeth oherwydd maen nhw'n cael eu hystyried yn aml yn faich ar gymdeithas, ar adnoddau....'

(Rheolwr cyfiawnder troseddol: 1)


Cafwyd tystiolaeth bod staff rheng flaen yn teimlo'n anghyfforddus wrth ofyn cwestiynau a allai effeithio ar urddas person a'i safle yn y teulu:

'Mewn ffordd od, dw i'n meddwl y gallai ymarferwyr fod yn ... rhy embaras i ofyn y cwestiwn iawn. Mae cywilydd cyfaddef bod eich plentyn eich hunan yn gwneud hyn i chi, felly, mae hynny'n golygu allwn ni ddim gwneud asesiad cywir, mae'n rheng flaen gymhleth iawn dwi'n meddwl.'

(Rheolwr cyfiawnder troseddol: 1)

Mae Ffigur 3 isod yn dangos lle roedd un neu ddau fath o gam-drin a'r berthynas, ynghyd â lefel yr asesiad risg. Lle roedd mwy nag un math o gam-drin, roedd y gamdriniaeth yn fwy difrifol, ond eto doedd gwerthusiad yr ymarferwr unigol o lefel asesiad risg DASH ddim bob amser yn adlewyrchu difrifoldeb y cam-drin. Hefyd, fel y gwelir yn y ffigur uchod, mewn llawer o achosion ni nodwyd lefel y risg (NI) a chafwyd cyfran nad oedd wedi'u cwblhau (NC).

Ffigwr 3: Lefel asesiad risg a nifer y mathau o gam-drin



NI = 'not indicated', hynny yw, bod lefel y risg yn is na'r pwynt lle dylid gweithredu; NC – heb ei gwblhau (not completed)

Yn y naw achos lle cofnodwyd dioddefwyr oedd yn dioddef dros dri math o gamdriniaeth, roedd y cam-drin yn aml yn digwydd dros gyfnod maith ac yn gam-drin difrifol. Nodwyd bod gan saith o'r dioddefwyr hyn anabledd. Mewn pedwar o'r naw achos, roedd y cyflawnwyr yn camddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Yr asiantaethau cyswllt gyntaf oedd: y gwasanaethau cymdeithasol (7); Age Cymru (1); yr ysbyty leol (1). Ceir manylion pellach am y grŵp hwn yn Nhabl 2 isod;

Table 2: Y berthynas rhwng cyfeirio, rhoi caniatâd, yr opsiynau drafodwyd a'r asiantaethau oedd ynghlwm yn yr achosion a lle roedd y cam-drin yn ddifrifol.

Dioddefydd	DASH RIC	Caniatad wedi ei sicrhau	Opsiynau a drafodwyd	Diffyg galluedd	3 ^{ydd} sector	MARAC	IDVA	IMCA	Collfarn	Canlyniad lles
1	Do	Do	Do	Na	Do	Na	Na	Na	Na	Positif
2	Na	Do	Do	Na	Do	Na	Na	Na	Na	Positif
3	Na	Do	Do	Na	Do	Na	Na	Na	Na	Positif
4	Na	Heb ei gwblhau	Do	Na	Yes	Na	Na	Na	Na	Dim gwybodaeth
5	Na	Heb ei gwblhau	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Dim gwybodaeth
6	Na	Heb ei gwblhau	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Dim gwybodaeth
7	Na	Heb ei gwblhau	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	
8	Na	Heb ei gwblhau	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Na	Dioddefydd wedi marw
9	Na	Heb ei gwblhau	Na	Do	Na	Na	Na	Na	Na	Positif

Nid yr heddlu oedd yr asiantaeth cyswllt gyntaf i unrhyw un o'r naw achos cymhleth. Dim ond mewn un achos y defnyddiwyd y DASH RIC ac ni

chyfeiriwyd un achos at MARAC nac ymglymu'r IDVA. Roedd hi'n amlwg bod canlyniadau lles cadarnhaol os oedd sefydliadau'r trydydd sector yn rhan o'r broses.

(ii) Caniatâd

I gael caniatâd rhaid bod gan y dioddefwr ddigon o wybodaeth i allu gwneud penderfyniad gwybodus o'i wirfodd a heb gael ei ddylanwadu/dylanwadu'n ormodol na'i orfodi. Pan ofynnir i ddioddefwr benderfynu, dylid ei hysbysu o oblygiadau derbyn neu beidio â derbyn y camau gweithredu a gynigir.

Ar y cychwyn, rhaid i'r asiantaeth gyswllt gael caniatâd y dioddefwr i rannu gwybodaeth gyda chyrff anstatudol yn y trydydd sector. Ar ôl sicrhau'r caniatâd gellir rhannu'r wybodaeth am amgylchiadau'r dioddefwr gydag eraill a all, wedyn, gysylltu â'r dioddefwr a chynnig cymorth. Felly, does dim rhaid i'r dioddefwr ailadrodd y wybodaeth am y digwyddiad trawmatig dro ar ôl tro i bob asiantaeth y dôn nhw i gysylltiad â hi, a thrwy hynny osgoi gorfod ail-fyw'r profiad a'r cywyliydd a'r ofn sy'n gysylltiedig ag e.

Yn y sampl Peilot, roedd carfan uchel o'r achosion wedi golygu bod pobl wedi cael eu galw allan i gartref y dioddefwr(wyr) hŷn ar frys yn syth ar ôl i ddigwyddiad argyfwng ddigwydd. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r heddlu ymateb yn gyflym i flaenoriaethu anghenion iechyd a diogelwch yr unigolion dan sylw. Er mwyn siarad â'r dioddefwr yn ddiogel, rhaid i swyddogion yr heddlu ganfod y cyflawnwr(wyr) a'i wahanu/gwahanu oddi wrth y dioddefwr(wyr). Gallai'r dioddefwr fod wedi'i drawmateiddio/thrawmateiddio a'i chael hi'n anodd iawn datgelu maint y cam-drin i'r heddlu neu ymarferwr arall. Dylai staff rheng flaen fod yn ymwybodol bod trafod cyfrinachedd a sefydlu caniatâd yn agweddau hollbwysig o'r broses cyfeirio ac yn hanfodol i fater achos rheoli diogelwch a chael hyd i asiantaethau lles a a chyfiawnder.

Mae sicrhau caniatâd i rannu gwybodaeth a hwyluso mynediad i wasanaethau cymorth yn golygu bod staff rheng flaen yn gwneud y canlynol:

- sefydlu a ydy'r dioddefwr yn gymwys (cymerir galluedd yn ganiataol onibai bod tystiolaeth i'r gwrthwyneb);
- sicrhau bod y dioddefwr yn gwybod am yr ystod o opsiynau sydd ar gael a'i bod/fod hefyd yn ymwybodol sut caiff unrhyw wybodaeth y maen nhw neu dystion yn ei rhoi ei defnyddio;
- sefydlu bodolaeth unrhyw ddylanwad gormodol, er enghraifft, ofn i'r cyflawnwr ddial;
- helpu i greu amgylchedd i'r dioddefwr allu gwneud penderfyniad clir am ei amgylchiadau/ei hamgylchiadau cyfredol ac unrhyw gamau gweithredu mae'n dymuno'u cymryd.

Yn ôl y wybodaeth a gofnodwyd yn y CMRau, dim ond mewn 18% o achosion (24) roddodd dioddefwyr ganiatâd i'r wybodaeth gael ei rhannu gydag asiantaethau eraill: gwrthododd 11% o'r dioddefwyr (14) roi caniatâd. Ym mwyafrif helaeth o'r achosion (70%), cofnododd y CMR nad oedd y ffurflen wreiddiol yn nodi a gafwyd caniatâd. Gall methu â chofnodi a roddwyd

caniatâd ai peidio effeithio ar allu'r asiantaeth gyfeirio gychwynnol ddefnyddio asiantaethau sy'n arbenigo mewn cam-drin domestig a grwpiau eraill y trydydd sector i sicrhau y delir ag anghenion y dioddefwyr.

(iii) Galluedd

Mae galluedd yn elfen ganolog o ganiatâd. Un o egwyddorion statudol *Deddf Galluedd Meddyliol* 2005 (MCA 2005) ydy rhagdybio galluedd. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn sicrhau na wneir honiadau diangen am bobl hŷn agored i niwed. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn golygu mai dim ond yn yr achosion mwyaf amlwg y dylid ystyried galluedd, er enghraifft achosion o dementia hwyr. Mewn 43 achos cofnodwyd bod galluedd gan y dioddefwyr; roedd 10 achos lle cafwyd diffyg galluedd gan y dioddefwr. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pedwar dyn a chwe menyw ac roedd naw o'r dioddefwyr hyn wedi profi dau fath neu fwy o gamdriniaeth. Roedd wyth yn achosion o gam-drin corfforol. Roedd straen gofalwr yn nodwedd mewn 5 achos. Cyfartaledd oedran yr is-grŵp oedd 79.6 mlwydd oed.

Yn y mwyafrif o achosion (92), ni nodwyd ar y CMR a ddeliwyd â materion galluedd. Cofnodwyd caniatâd fel 'heb ei nodi' a chofnodwyd bod 42 o'r achosion hyn 'heb gwblhau'r' DASH RIC. O ddadansoddi'r data ansoddol ar y ffurflenni lle nodwyd bod galluedd 'heb ei nodi' cafwyd nad oedd sail asesiad o alluedd y dioddefwr yn gwbl eglur. Doedd dim arwydd, o'r cyswllt cychwynnol hyd at ddiwedd yr achos, bod y cwestiynau hyn am alluedd wedi cael eu hystyried. Gall methu ag asesu galluedd, lle bo'n briodol, achosi i berson hŷn beidio cael yr hawl i wrandawriad teg a mynediad i gyfiawnder.

Mewn nifer sylweddol o achosion lle roedd diffyg galluedd gan y dioddefwr a bod cam-drin wedi digwydd, roedd y dioddefwr yn 'ddi-gyfaill'⁵, a'r cyflawnwr yn berthynas agos, naill ai'n byw gyda'r dioddefwr neu'n byw'n agos. Doedd dim tystiolaeth yn y cofnodion y gofynnwyd am help Eiriolwr Annibynnol Galluedd Meddyliol (IMCA) yn unrhyw un o'r achosion hyn.

Fel mae'r canlyniadau'n awgrymu, pan nodir analluogrwydd, mae'r dioddefwr yn gynyddol agored i niwed. Mae'r prawf budd pennaf ynghyd â'r cyfarwyddyd a geir yn yr MCA 2005 a'r Cod Ymarfer yn darparu fframwaith er mwyn gallu dyfarnu'r budd pennaf. Mae asesu'r budd pennaf yn gymhleth gan fod rhaid, cyn belled â phosibl gynnwys y person yn y broses hon. Rhaid i asesiad budd pennaf hefyd gydnabod hawl y person i gyfiawnder a rhyw fath o remedi, pwynt y mae Llys Hawliau Dynol Ewrop yn ei bwysleisio yn achos *X v Netherlands*.

⁵ Ystyrir bod person yn 'ddi-gyfaill' os na fydd teulu neu ffrindiau yn fodlon ac yn gallu eiriol ar ei ran/ei rhan; neu os nad yw'n bosibl, ymarferol a phriodol i gysylltu â neb. Gall y person â diffyg galluedd fod yn 'ddi-gyfaill' hefyd os oes ganddo/ganddi deulu a ffrindiau ond bod rhesymau pam yr ystyrir nad yw'n ymarferol na phriodol i'w hymglymu (er enghraifft mai'r cyflawnwr ydy'r person hwnnw neu ar y pegwn arall ei fod/bod yn rhy fregus).

Cyfeirio pobl at IMCA

Mae rôl IMCA yn hanfodol i ymglymiad y dioddefwr sydd â diffyg galluedd. Mae dewis gan awdurdod lleol neu'r corff GIG i benodi IMCA mewn achosion diogelu oedolion. Mae'r data yn awgrymu mai prin oedd y defnydd a wnaed o IMCA mewn achosion o gam-drin domestig. Nododd ymarferwyr pan ddefnyddiwyd IMCA yn ystod y Peilot i hynny gael ei wneud yn gymharol hwyr yn y broses. Ni ystyriwyd bod blwyddyn y Peilot yn flwyddyn annodweddiadol o ran yr oedi i ddefnyddio gwasanaeth IMCA gan yr asiantaethau dan sylw.

Dim ond tri achos a gofnodwyd ar y CMRau iddyn nhw gael eu cyfeirio at IMCA; fodd bynnag, pan adolygodd IMCA gofnodion y Peilot ar gyfer y flwyddyn dim ond dau gyfeiriad a dderbyniwyd mewn gwirionedd. Cyflwynodd y tîm ymchwil saith ffeil achos o ddioddefwyr oedd yn analluog, ond heb eu cyfeirio at yr IMCA; cadarnhaodd rheolwr iechyd meddyliol arbenigol bod y saith achos yn cwrdd â'r meini prawf cyfeirio ar gyfer yr IMCA. Mae'r enghreifftiau hyn o golli cyfle i gyfeirio yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r adeg pan fyddai cyfeirio at IMCA yn amhriodol. Felly, mae'n ymddangos o gasgliadau'r Peilot na chafodd yr IMCA ei ymgorffori i weithredu ar ei orau ym mhroses POVA.

Yr IMCA a'r broses ymchwilio

Achosodd data'r cyfweiliadau bryderon am rai camdybiaethu am yr arfer o oedi cyn cynnwys IMCA yn ystod y broses ymchwilio. Cafwyd awgrym bod asiantaethau statudol yn gohirio ymglymiad o'r fath tan i'r broses ymchwilio ddod i ben. Nododd nifer o asiantaethau y byddai cynnwys IMCA yn achosi i'r broses gael ei chyfaddawdu ac yn agored i gyhuddiad o hyfforddi'r tyst, ac felly diddymu'r posiblwydd o erlyn. Rhaid herio'r farn hon. Mae cynnwys IMCA mor gynnar â phosibl yn y broses yn hollbwysig gan fod ystod o benderfyniadau yn digwydd yn gynnar yn y broses ymchwilio sy'n dylanwadu'n drwm ar y canlyniad terfynol. Byddai cynnwys IMCA yn ystod y cyfnod ymchwilio yn gwarantu bod rhywun yn eiriol dros y dioddefwr a bod opsiynau yn cael eu trafod, er enghraifft y defnydd o fesurau arbennig. Gallai IMCA hefyd helpu i gyfathrebu'n well gyda'r dioddefwr. Er ei ddiffyg/diffyg galluedd, mae hawliau o hyd gan y dioddefwr, gan gynnwys yr hawl, os yw'n briodol, i gael mynediad i brosesau cyfiawnder troseddol neu sifil. Mae IMCAs yn grŵp o bobl broffesiynol sydd wedi derbyn lefel uchel o hyfforddiant ac yn sensitif o'r cyfyngiadau y mae proses ymchwilio cyfiawnder troseddol yn eu gosod arnyn nhw; mae gwrthod i ddioddefwyr gael gwasanaeth IMCA yn gynnar yn effeithio ar hawliau y dioddefwr analluog i gyfleu eu dymuniadau:

'Dw i'n teimlo bod [ymarferwyr] yn dueddol i gredu na fyddai IMCAs yn cymryd rhan tra bod yr ymchwiliad yn cael ei gynnal rhag ofn y bydden ni'n siarad â phobl neu'n anfwriadol gwneud llanast o bethau yn y bôn a rhwystro'r broses honno. Rydyn ni gyd wedi cael ein hyfforddi. ... dw i'n meddwl ein bod ni i gyd yn glir, roedd pawb o'r farn eu bod i gyd yn bobl eitha synhwyrol ac yn bobl broffesiynol.'

(Arbenigwr iechyd meddyliol: 2)

Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a galluedd cyfnewidiol

Mae galluedd yn nodwedd ddeinamig a threiddiol ymhob achos. Felly, dylai pob asiantaeth fod yn ymwybodol na ddylai dynodi galluedd wrth i'r person ddatgelu camdriniaeth o angenrheidrwydd benderfynu galluedd unigolyn drwy gydol y cyfnod ymchwilio a thu hwnt. Gall galluedd godi a gostwng ac mae nifer o ffactorau y mae rhaid eu hystyried wrth gynnal asesiad. Mae galluedd yn benodol i amser a chyd-destun; gall y lleoliad ac amser y dydd, aseswyr unigol a natur y drafodaeth i gyd ddylanwadu ar y canlyniadau. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn creu amgylchedd sy'n ffafriol i anghenion yr unigolyn wrth ystyried materion galluedd.

Dylai pob asiantaeth (gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, y sector gwirfoddol a chyfiawnder troseddol) fod yn llwyr ymwybodol o'r fframwaith statudol yn yr MCA 2005 sy'n gofyn am *bopeth* gael ei wneud i gynorthwyo pobl i wneud penderfyniad drostyn nhw eu hunain yn hytrach na phenderfynu bod diffyg galluedd ganddyn nhw. Oherwydd y gallai cam-drin yr henoed godi lefel pryder, mae creu amgylchedd galluogi ar gyfer asesu yn arbennig o bwysig. Wrth ddelio ag achosion a ystyrir yn 'faterion teuluol' mae angen i ymarferwyr sicrhau nad ydy digwyddiadau o fewn yr uned deuluol ddim yn cysgodi anghenion y dioddefwr.

Cyfiawnhad ymarferwyr dros beidio â phrofi am alluedd

Er na ddylai profion 'mini-feddyliol' ar gyfer galluedd fod yn rhywbeth arferol, mae angen i ymarferwyr gyflwyno tystiolaeth pam nad oedd materion galluedd yn ystyriaeth a dangos yn ystod y cyfeirio bod y broses yn gallu newid dros amser.

(iv) Opsiynau a drafodwyd

Ymhob achos namyn 12 (11 digwyddiad bach iawn a 1 galwad allan ffug), bydden ni wedi disgwyl i'r asiantaeth 'cyswllt gyntaf' fod wedi trafod opsiynau cyfiawnder troseddol a sifil gyda phob dioddefwr fel bo'n briodol. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn amlwg o ddata'r CMRau. Dydy hi ddim yn bosibl casglu a drafodwyd opsiynau ai peidio ond heb eu recordio. Mewn 21 achos (bron yn 14%) nodwyd yn Adran B o'r CMRau bod opsiwn cyfiawnder troseddol a/n eu sifil wedi cael ei drafod gyda'r dioddefwr. Yn hanner yr achosion hyn, yr heddlu oedd yr asiantaeth cyswllt gyntaf; y gwasanaethau cymdeithasol, ysbyty, Age Concern a meddyg teulu oedd yn gyfrifol am yr hanner arall.

O archwilio cynnwys Adran C o'r CMRau, cafwyd tystiolaeth bod opsiynau wedi cael eu trafod mewn 23 o achosion pellach (19 yr heddlu a phedair asiantaeth arall). Mae hyn yn awgrymu *na* thrafodwyd opsiynau gyda dioddefwyr mewn tua 66% o bob achos perthnasol:

'I roi grym i rywun rhaid sicrhau bod y wybodaeth ar gael iddyn nhw er mwyn rhoi rheolaeth iddyn nhw a gwneud penderfyniadau drostyn nhw

eu hunain. Felly, dw i'n credu y dylen nhw [y dioddefwyr] fod yn ymwybodol o bopeth. Dw i ddim yn siŵr a ydy hyn yn digwydd naill ai oherwydd bod pobl [ymarferwyr] yn meddwl ar ran y person hŷn ei bod yn well nad ydyn nhw [y person hŷn] yn gwybod neu nad yw pobl [ymarferwyr] yn gwybod pa wasanaethau, opsiynau sydd ar gael ... Felly oes, pan fydd y drws ar agor, rhaid i ni achub ar y cyfle. Dw i ddim yn meddwl y delir â'r pethau hyn yn drylwyr bob amser...'

(Ymarferwr gwasanaeth cam-drin domestig)

Efallai bod cyfuniad o ffactorau yn egluro mai dim ond cyfran gymharol fechan o achosion y cofnodwyd bod opsiynau troseddol/sifil wedi eu trafod. Awgrymwyd yn y cyfweiliadau ansoddol nad oes gan ymarferwyr y wybodaeth na'r hyfforddiant i'w galluogi i gynghori dioddefwyr o ran opsiynau cyfiawnder sifil yn arbennig.

'...mae ystod eang o sanctsiynau a dw i'n meddwl bod digon o sanctsiynau sifil ar gael i ddiogelu dioddefwyr o gam-drin domestig, cam-drin yr henoed neu beth bynnag, ond dydyn nhw ddim yn cael eu defnyddio. Dylai gweithwyr rheng flaen wybod beth ydy'r opsiynau, dydyn nhw ddim yn eu trafod gyda'r dioddefwr; mae angen rhagor o hyfforddiant. Mae syniad ei fod yn ddrudd ac anodd ond dydy e ddim. Mae'r gyfraith yno, rhaid i ni ei defnyddio'n fwy helaeth'

(Uwch reolwr cyfiawnder troseddol: 3)

Hefyd mae posibilrwydd y gallai ymarferwyr benderfynu peidio â thrafod opsiynau gyda'r dioddefwr gan fabwysiadau agwedd dadol a cheisio amddiffyn person hŷn sydd eisoes yn agored i niwed, yn eu tyb nhw. Mae'r cyfweiliad gyda dioddefwr hŷn o sampl OPAN yn awgrymu ei fod wedi cael ei berswadio rhag mynd drwy achos troseddol neu sifil oherwydd y teimlad oedd y byddai'r profiad yn andwyl i'w iechyd meddwl.

'... ar y dechrau cafodd ei wneud mor gynnil ond pan ddaeth pethau i ben galwyd ar y gwasanaethau cymdeithasol ynghyd â phobl eraill, roedden nhw eisiau galw'r heddlu ond dwedodd fy nghyfreithiwr a fy meddyg teulu "na" oherwydd byddwn i ddim wedi mynd drwy'r broses [y broses cyfiawnder troseddol].'

(Dioddefwr)

(v) Cyfeiriadau

Ar ôl delio â materion caniatâd a galluedd a chynnal asesiad risg, dylai asiantaethau ystyried opsiynau gyda'r dioddefwr a chyfeirio at MARAC neu asiantaethau statudol eraill a chyrrff a gwasanaethau'r trydydd sector.

Os nodwyd ymglymiad gweithredol ar sail y wybodaeth a geir yn y CMRau, mae'r data yn awgrymu bod ansawdd yr ymglymiad gyda'r asiantaeth yn amrywio'n sylweddol o ran sicrhau bod y dioddefwr yn gwybod popeth a bod eu dymuniadau yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau.

‘Rydyn ni wir angen sicrhau bod pawb yn cael eu cydnabod, mai’r unigolyn sydd yn ganolog i’r broses. Mae rhaid mai dyna’r ffocws; sef dymuniadau’r unigolyn.’

(Uwch reolwr gwasanaeth pobl hŷn: 1)

Mae dull aml-asiantaeth, cydlynol yn nodwedd annatod o strategaeth ‘Mynediad i Gyfiawnder’: ‘Cydnabyddir yn genedlaethol bod angen i asiantaethau statudol gydweithio’n agos gyda sefydliadau’r trydydd sector i alluogi cyflenwi mesurau diogelwch cynhwysfawr ar gyfer pobl sy’n dioddef cam-drin domestig. Ni all asiantaeth unigol gyflawni’r nod hwn drwy weithio ar ei ben ei hun’; (Mynediad i Gyfiawnder, 2011: 19). Mae’r astudiaeth achos isod yn enghraifft dda o ymateb aml-asiantaeth llwyddiannus.

Astudiaeth Achos: Ymgysylltu gyda’r dioddefwr drwy weithio aml-asiantaethol

Safbwynt Asiantaeth:

Cyfeiriwyd dioddefwr o gam-drin henoed gan yr heddlu yn yr Uned Cam-drin Domestig i POVA, ond doedd y cyfeirio ddim yn cwrdd â throthwy POVA. Fodd bynnag, oherwydd bod caniatâd wedi’i sicrhau o’r cychwyn cyntaf, cysylltodd y gweithiwr arweiniol â sefydliad y trydydd sector, Age Cymru, a ddaeth, wedi hynny yn brif gyswllt ar gyfer pob asiantaeth a gweithredu fel eiriolwr ar ran y dioddefwr. Roedd y grŵp aml-asiantaeth yn cynnwys y Meddyg Teulu, y Prosiect Cyffuriau (a weithiodd gydag aelodau eraill o’r teulu), yr heddlu a’r asiantaeth tai. Cynorthwyodd gweithgareddau’r gwahanol bartion i flaenoriaethu llety amgen ar gyfer y dioddefwr. Sefydlwyd perthynas gref, ymddiriedus gydag eiriolwr o Age Cymru. Fe wnaeth cysylltiad rheolaidd helpu i ddelio ag anghenion y dioddefwr ac aelodau eraill y teulu. Stopiodd y cam-drin ac roedd y dioddefwr yn fodlon iawn gyda’r cymorth a ddarparwyd.

Adborth Cleient:

Teimlai’r cleient ei bod yn cael ei chefnogi oherwydd bod rhywun wedi dangos diddordeb yn ei sefyllfa a sut roedd hi’n teimlo. Roedd y wybodaeth a gafodd hi wedi rhoi mwy o ddewisiadau ac opsiynau iddi hi feddwl amdany’n nhw. Roedd hi wedi synnu at y gwasanaethau a gynigiwyd gan Age Cymru Abertawe a theimlai’n gyfforddus yn siarad â sefydliad anstatudol. Dywedodd ei bod yn teimlo bod pwysau arni hi (oherwydd y cam-drin) ac am y tro cyntaf roedd hi wedi dechrau meddwl am ei hiechyd a’i dyfodol hi ei hun. Dywedodd ei bod wedi teimlo’n euog hi bob amser wrth riportio’i theulu i’r heddlu, a chanlyniadau hynny. Ond sylweddolodd bod rhaid iddi er mwyn symud yn ei blaen, helpu ei hun drwy dderbyn cyngor a chymorth gan y partion perthnasol. Roedd hi hefyd wrth ei bodd bod Uned Cam-drin Domestig yr Heddlu ac Age Cymru yn gallu cefnogi ei chais ar gyfer asesiad tai.

Cafwyd rhai enghreifftiau lle doedd ymateb asiantaeth ddim yn llwyddiannus. Er enghraifft, fe wnaeth un dioddefwr beidio â gadael y tŷ oherwydd ei bod yn aros am alwad ffôn oddi wrth asiantaeth na ddaeth. Enghraifft arall oedd peidio â rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr am sut roedd eu hachos yn symud yn

ei flaen. Gallai'r ansicrwydd roedd profiadau fel y rhain yn eu creu fod yn fwy o ofid i ddioddefwyr hŷn.

Ar draws pob asesiad risg, roedd y nifer fwyaf mynych o gyfeiriadau yn cynnwys yr asiantaeth gyntaf yn cyfeirio i un asiantaeth arall, i gyd yn sefydliadau statudol. Arweiniodd cyfanswm o 61 achos (42%) at ymglymiad gweithredol gyda'r dioddefwr.

Roedd 56 o achosion lle cyfeiriodd yr heddlu ddioddefwyr at un asiantaeth statudol arall; o'r rhain roedd 11 yn cynnwys y broses gyfreithiol (dau ohonyn nhw yn cynnwys camau gweithredu lles); un yn cynnwys gweithredu sifil; a 6 yn cynnwys camau gweithredu lles yn unig.

Mewn 24 o achosion lle mai'r asiantaeth cyswllt cyntaf oedd y gwasanaethau cymdeithasol ac un cyfeirio wedi digwydd ym mhob, dynodwyd ymglymiad gweithredol mewn 15 achos (camau gweithredu lles oedd hyn yn bennaf a dau achos yn cynnwys camau gweithredu cyfreithiol).

Roedd hi'n amlwg o'r ffeiliau achos bod yr heddlu wedi ymateb yn sensitif ac yn gadarnhaol i ddioddefwyr cam-drin yr henoed. Mewn rhai achosion ymwelodd yr heddlu'n gyson â chartrefi dioddefwyr. Ystyriwyd bod potensial i'r gwiriadau diogelwch hyn gael effaith ataliol.

MARAC

O ran caniatâd, yr opsiynau a drafodwyd, ymglymiad gweithredol a chanlyniadau cyfreithiol a lles, gwnaeth yr achosion a gyfeiriwyd at MARAC yn dda iawn. Cyfeiriwyd cyfanswm o 16 achos yn llwyddiannus at MARAC; ni aethpwyd ymlaen ag un achos oherwydd newid yn amgylchiadau'r dioddefwr. O'r 15 achos yn weddill, roedd 13 yn cynnwys rhyw ffurf o ymglymiad gweithredol a dewisodd 10 y llwybr cyfreithiol ac o'r rhain collfarnwyd pump ohynyn nhw. Yn yr 13 achos arall cafwyd tystiolaeth o ymglymiad gweithredol, nododd 11 o ffurflenni CMR bod opsiynau wedi cael eu trafod ac roedd pob un wedi cael cyswllt â'r IDVA neu wedi gweithio'n agos gyda'r IDVA.

Ymglymiad y trydydd sector

Yn gyffredinol, mae data o'r cyfweiliadau a'r CMRau yn nodi na ddefnyddiwyd y sector gwirfoddol yn effeithiol. Cafwyd enghreifftiau lle roedd dioddefwyr wedi rhoi eu caniatâd i rannu'r wybodaeth yr oedd yr asiantaethau statudol yn ei dal gyda'r sector gwirfoddol ac yn fodlon gweithio gyda'r prosiect, ond ni wnaeth hyn arwain at weithredu camau lles. Rhoddodd ymarferwyr nifer o resymau am y prinder cyfeiriadau i'r sector gwirfoddol ac yn eu plith:

- problemau cael caniatâd;
- asiantaethau partner nad oedd yn ymwybodol o'r math o ddarpariaeth oedd ar gael;
- asiantaethau'n ansicr i ble i gyfeirio dynion hŷn oedd yn dioddef camdriniaeth,
- eu tybiaeth bod diffyg gwybodaeth gan rai asiantaethau am gam-drin yr henoed ac felly efallai ddim yn ymateb mewn modd priodol.

Roedd hi'n ymdangos mai gyda'r trydydd sector roedd y person hŷn yn cydweithio orau a lle cafwyd pobl yn euog roedd tystiolaeth bod y trydydd sector wedi cynorthwyo yn y rhan fwyaf o achosion. Y canfyddiad cyffredinol oedd y gallai ymarferwyr y trydydd sector ddarparu cymorth di-duedd, annibynnol oedd yn rhoi grym i'r person hŷn mewn modd na allai asiantaethau statudol:

'Pam fod oedolion analluog yn gwrthod ymglymu? Oherwydd bod ofn awdurdodau arnyn nhw. Nawr mae'r trydydd sector yn rhoi hyder i'r bobl hyn a dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod yn cael eu meddiannu. Maen nhw'n ganolog i'r broses o wneud penderfyniad, unigolion ydyn nhw nid achos [...]. I berson hŷn mae'r gallu i reoli pethau, bod wrth y llyw, gwybod beth sydd yn mynd i ddigwydd ymlaen llaw, yn bwysig iawn. Gyda'r sector statudol, gall deimlo, os na chaiff y sefyllfa ei thrin yn ofalus fel petai penderfyniadau'n cael eu gwneud hebddo/hebdi. Dydy eu llais nhw ddim yn ganolog i'r broses. Rydych yn rhuthro i mewn a dydyn nhw ddim eisiau gwybod.'

(Uwch reolwr cyfiawnder troseddol)

Soniwyd hefyd yn y cyfweiliadau gydag aelodau OPAN am y potensial i sefydliadau'r trydydd sector weithio'n uniongyrchol gyda dioddefwyr. Cyfeiriwyd yn aml at y ffaith bod Age Cymru yn defnyddio dull o fynd ati yn seiliedig ar y dioddefwr, dull a ystyriwyd oedd yn helpu dioddefwyr i siarad am eu profiadau.

'... mae angen cael rhywun i eistedd gyda'r dioddefwr hwnnw a bod yn gyfaill iddo. Dyma sy'n digwydd gydag Age Concern ... maen nhw [y dioddefwyr] angen amser i ddod i ymddiried yn y person hwnnw, rhaid bod yn sensitif wrth wneud hyn. Efallai bod rhaid galw neu ffonio ddwy neu dair gwaith cyn iddyn nhw ddechrau siarad am y peth. Galla i siarad yn eithaf agored am y peth nawr ond don i ddim ar y pryd. Mae'r dioddefwr yn colli pob grym a rhaid eu helpu i goncro hynny; rhaid sefydlu cynllun gyda'r holl asiantaethau. Efallai bydd hi'n cymryd amser hir cyn gallu taclo'r broblem...Dw i'n meddwl mai'r un linc hwnnw [adeiladu perthynas] sydd ar goll yn y gwasanaethau cymdeithasol, mae wir yn hanfodol...'

(Dioddefwr - gwryw)

Thema allweddol yng nghyfweiliadau OPAN oedd sut roedd angen amser i berthynas rhwng cleientiaid a darparwyr gwasanaeth ddatblygu er mwyn sefydlu ymddiriedaeth. Ystyriwyd bod adeiladu perthynas yn hanfodol i alluogi dioddefwyr ystyried yr ystod o opsiynau ar gael iddyn nhw ac iddyn nhw allu gweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau.

Ymglymiad statudol

Mae gan asiantaethau statudol ddyletswydd gofal i amddiffyn pobl hŷn rhag cael eu cam-drin. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn yn datgan: 'Dylai pobl hŷn fod yn gallu byw mewn urddas ac yn ddiogel a

chael rhyddid i fyw rhag camfanteisio a cham-drin corfforol a meddyliol.' (Egwyddor 17).

Cydnabuwyd gan ystod eang o ymarferwyr a rheolwyr nad oes gan asiantaethau statudol yr adnoddau angenrheidiol bob amser i ddatblygu perthynas gryfach gyda'u cleintiaid. Gallai hyn olygu na chaiff arwyddion o gam-drin yr henoed eu canfod. I oedolion sydd ddim yn disgyn i gategori diffiniad *Mewn Dwylo Diogel* o oedolyn agored i niwed, efallai na chaiff problem cam-drin domestig ei hwynebu. Yna bydd y person hŷn yn dal i ddioddef cam-drin mewn amgylchedd anniogel. O ddadansoddi mapiau'r broses a luniwyd o'r CMRau, cafwyd bod is-grŵp penodol o ddioddefwyr yn sampl y Peilot yn byw mewn amgylchedd lle roedd cam-drin yn digwydd yn barhaus. Roedd y grŵp gyda'r lefel waethaf o gyfeirio a'r lefel isaf o ymglymiad gweithredol yn cynnwys yn bennaf unigolion mewn perthynas lle roedd hanes o gam-drin domestig gan y gŵr/wraig dros nifer o flynyddoedd. Roedd tystiolaeth bod asiantaethau'n gyndyn o weithredu ac ymyrryd ymhellach oherwydd bygythiadau'r cyflawnwr ac mewn rhai achosion fygythiadau teulu'r cyflawnwr.

'Ar un cyfnod, rhoddwyd y wraig [y ddioddefwr â diffyg galluedd] dan Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid tra yn yr ysbyty, i geisio delio â'r gŵr [roedd ei gŵr wedi bod gyflawnwr hir-dymor o gam-drin domestig]. Gosodwyd amodau lle roedd rhaid i'w ymweliadau â hi gael eu goruchwyllo bob amser, fodd bynnag, llaciwyd hyn pan soniwyd am weithredu cyfreithiol [gan y cyflawnwr] yn eu herbyn [y brif asiantaeth] a thynnodd y brif asiantaeth yn ôl yn sylweddol. Mae cyflawnwyr yn gwybod y gallan nhw wneud hyn ac mae asiantaethau'n rhoi'r ffidil yn y to, mae'r cyfle wedi'i golli ac mae'r drws yn cau ar y person hwnnw [dioddefwr o gam-drin yr henoed].'

(Arbenigwr iechyd meddyliol : 2)

Yn y data roedd nifer o enghreifftiau o bob asiantaeth statudol yn colli cyfle i gyfeirio at gyrff y trydydd sector.

Amddiffyn Oedolion a Cham-drin Domestig

Thema allweddol y cyfweiliadau ansoddol a'r grŵp ffocws oedd y diffyg eglurder a ddylai asiantaethau gyfeirio cleientiaid i mewn i broses MARAC neu POVA. Roedd dadansoddiad o'r mapiau proses yn cefnogi'r casgliad hwn hefyd hyn hefyd gan godi cwestiynau am y prosesau gwneud penderfyniadau. Byddai dull mwy strwythuredig o fynd ati, dull oedd yn integreiddio prosesau MARAC a POVA, yn gwella canlyniadau cyffredinol ar gyfer cleientiaid wrth ddelio ag achosion o gam-drin domestig. Wrth adolygu'r mapiau proses, roedd hi'n glir bod canlyniadau pendant yn amlwg pan ymgorfforwyd MARAC yn y broses a/neu asiantaeth y trydydd sector yn gweithio gyda nhw. Roedd 'na farn nad oedd gan rai ymarferwyr maes gwasanaethau cymdeithasol, tai a iechyd wybodaeth ddigonol am y DASH RIC, y MARAC a'r IDVA a phroses Trefniadau AML-Asiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA), rôl IMCA a gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr a gwasanaethau cam-drin domestig megis Cymorth i Fenywod a BAWSO (Cymdeithas i gynorthwyo merched duon sy'n dioddef camdriniaeth).

Roedd gwir bryderon nad oedd dioddefwyr yn cael cyfle i weithio gydag ystod o asiantaethau ag arbenigedd mewn cam-drin domestig oherwydd nad oedd y POVA na'r MARAC yn brosesau oedd wedi'u hintegreiddio'n dda.

'... mae gan y ddwy broses y POVA a'r MARAC y naill a'r llall eu cryfderau a'u gwendidau; mae angen i ni groes-beillio rhwng y ddwy . Mae gan y MARAC fynediad i adnoddau sylweddol o ran asiantaethau statudol a'r trydydd sector. Gall y POVA fod yn ymatebol iawn, felly rydyn ni'n ystyried amgylchiadau'r unigolion yn gyntaf a sicrhau bod y rheolwr llinell dynodedig yn y MARAC neu bod yr IDVA yn y cyfarfodydd strategaeth. Ar hyn o bryd mae fel pêl yn cael ei thaflu nôl a mlaen a neb yn fodlon gweld rhinweddau taclo'r broblem ar y cyd cryfderau ... a hynny'n niweidiol i'r person [y dioddefwr].'

(Rheolwr cyfiaawnder troseddol: 1)

Bylchau yn y llwybr cyfeirio

Nodwyd eisoes nad ydy asesiadau risg bob amser yn adlewyrchu difrifoldeb y cam-drin yn gywir ac felly efallai'n gallu bod yn rhwystr rhag cael mynediad i adnoddau o ran opsiynau cyfiawnder, cymorth lles a chynllunio diogelwch. Ond cafwyd enghreifftiau lle roedd yr asesiad risg yn gywir a chyfeiriwyd yn briodol. Fodd bynnag, wrth adolygu'r mapiau proses a'r CMRau ac edrych ar y canlyniadau, roedd llawer o gyfeiriadau yr ystyriwyd eu bod yn uchel eu risg wedi cwmpo drwy'r bylchau yn y llwybr cyfeirio.

Ymhlith y rhain roedd:

- cyfeiriadau i'r MARAC na ddaeth i'r wyneb ym mhroses MARAC;
- cyfeiriadau i POVA nad oedd yn cwrdd â throthwy POVA;
- achosion uchel eu risg na chyfeiriwyd i mewn i broses MARAC;
- achosion uchel eu risg lle nad oedd y dioddefwr wedi rhoi caniatâd i rannu gwybodaeth, ond heb eu cyfeirio i mewn i broses MARAC, (e.e. achosion cam-drin domestig uchel eu risg lle roedd hanes hir o gam-drin rhwng y gŵr a'r wraig);
- achosion lle roedd diffyg galluedd gan yr unigolion, lle roedden nhw'n 'ddi-gyfaill' ac eto ni chafwyd unrhyw gyfeirio at yr IMCA.

Os oedd dioddefwyr wedi rhoi caniatâd i gynorthwyo, doedd hi ddim yn ymddangos bod mecanwaith yn ei le i fonitro'u taith drwy brosesau POVA a MARAC. Mae angen i asiantaethau ddatblygu strategaethau i dracio achosion i'w hatal rhag syrthio drwy'r bylchau yn y llwybrau cyfeirio. Awgrymodd tystiolaeth o'r ffeiliau bod angen archwilio pob llwybr yn fwy trylwyr cyn cymryd yn ganiataol nad ydy dioddefwyr am gael ymglymiad allanol. mewn achosion lle na roddwyd caniatâd, ond bod lefel y niwed yn ddifrifol, roedd er budd y dioddefwr i anwybyddu'r ffaith fod y dioddefwr wedi gwrthod rhoi caniatâd ac i rannu gwybodaeth. Gellid defnyddio proses MARAC i wneud hyn.

Teimlai ymarferwyr fod pobl hŷn yn aml y profi lefel uchel o gamdriniaeth ond bod y cyflawnwr yn rhoi pwysau gormodol arnyn nhw i wrthod unrhyw ymyrraeth. Unwaith y gwneir datgeliad mae 'na farn y dylai ymarferwyr fod yn

fwy rhagweithiol yn sefydlu a oedd y caniatâd yn ddilys a di-ffuant a bod dewisiadau'r dioddefwyr yn wir adlewyrchu eu dymuniadau ac nid yn ddewisiadau a orfodwyd arnyn nhw oherwydd eu hamgylchiadau. Treuliwyd gormod o amser yn monitro sefyllfa yn hytrach na chymryd camau gweithredu pendant.

'Mae angen i asiantaethau gamu i'r adwy a dweud. "Allwn ni ddim â gadael i hyn barhau oherwydd ein bod yn gwybod eich bod yn cael eich erlid, er dw i ddim yn gwybod pam nad ydych chi [y dioddefwr] yn dod ymlaen a riportio pethau neu erlyn, oherwydd bod ofn arnoch chi bydd pethau'n gwaethygu o ganlyniad." Rydyn ni wedi cael achosion parhaus lle mae oedolion agored i niwed wedi dweud "na" ... [er enghraifft, mae hi'n dweud] ... mae'n hapus i fyw gyda'i mab yn ei gyfeiriad ef ac nid yw'r cam-drin cynddrwg â hynny, ond rydych chi'n gwybod hynny... rydych chi wedi siarad â gwraig saith deg naw oed oedd ddim yn barod i agor y drws led y pen i siarad â chi, oedd y mab hwnnw'n bresennol? Mae'n rhy ofnus i adael ei chartref i siarad â chi rhag ofn i'w heiddo gael ei ddwyn a'i werthu am arian i brynu cyffuriau. Ai gwir ganiatâd ydy hynny dan yr amgylchiadau hynny?'

(Rheolwr cyfianwder troseddol: 1)

Os profir esgeulustod dros gyfnod maith, ac mai dim ond safbwynt un asiantaeth sy'n llywio'r broses gwneud penderfyniad, gall hyn fod yn niweidiol i'r person hyn. Mae'r astudiaeth achos isod yn darparu enghraifft o sefyllfa gyffelyb.

Astudiaeth Achos: Yr angen i weithredu'n bendant i flaenoriaethu anghenion y dioddefwr

Roedd y fam, y dioddefwr cam-drin yn fenyw fregus iawn yn ei nawdegau. Eu dwy ferch oedd y cyflawnwyr, y ddwy ohonyn nhw yn alcoholics cronig. Roedd yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod am yr achos.

'Weithiau ceir gwrthdaro rhwng athroniaeth yr asiantaethau. Ystyriai un asiantaeth mai eu rôl oedd cadw'r teulu gyda'i gilydd drwy sefydlu gofawyr yn eu cartref. Fodd bynnag, dros amser, roedd yn glir nad oedd hyn yn gweithio. Ar ôl trafodaeth fywiog iawn ymhlith yr asiantaethau symudwyd yr hen wraig a bu byw dri neu bedwar mis mewn cartref gofal. Dwi'n meddwl na chafodd hi fywyd cyfforddus ar ddiwedd ei bywyd oherwydd yr agwedd "eithafol" hon o geisio cadw'r uned deuluol gyda'i gilydd. Rhaid gwybod ble i dynnu'r llinell. Roedd 'na ddwy ferch oedd yn yfed o ddifrif a weithiau roedd angen mwy o ofal arnyn nhw. Ar brydiau roedden nhw'n gwlychu a baeddu eu hunain. Pan ddeuai'r gofawyr i mewn roedd rhaid iddyn nhw gamu drostyn nhw, y llanast a phopeth arall. O safbwynt hawliau dynol, maen nhw'n hoff o ddyfynnu erthygl wyth sef hawl i fywyd teuluol. Os oes problemau difrifol fel hyn, dwi'n meddwl ei bod yn gamsyniadu dybryd i gyfeirio'n barhaol at erthygl wyth ... yn enwedig os nad oes galluedd gan y person druan i fynegi ei hun. Dyma lle dylid bod wedi galw IMCA i mewn ond yn aml ni ddefnyddir eu harbenigedd pan ddylid gwneud hynny...'

(Arbenigwr iechyd meddyliol: 2)

5. Canlyniadau

(i) Remediau cyfreithiol


O fewn y systemau troseddol a sifil, mae nifer o remediau cyfreithiol ar gael i ddioddefwry cam-drin yr henoed. Gall y gyfraith droseddol a'r un sifil fel ei gilydd yn darparu dull lle gall pobl hŷn agored i niwed gael eu hamddiffyn rhag yr un sy'n cam-drin. Prin ydy'r defnydd a wneir o hyd o weithdrefnau'r gyfraith droseddol a sifil yn achosion cam-drin yr henoed. Dydy hyn ddim yn awgrymu bod y gyfraith bob amser yn briodol a bob amser yn effeithiol. Fodd bynnag, mae mynd i gyfraith yn ddull i'r dioddefwr deimlo ei fod/bod yn cael cyfiawnder a bod y Wladwriaeth wedi cyflawni ei goblygiadau ynghlŷn â hawliau dynol.

Canlyniadau cyfiawnder troseddol

Yn sampl y Peilot, cyhuddwyd 11 o gyflawnwyr a mynd â nhw o flaen eu gwell a chafwyd 10 yn euog. Rhyddhawyd un pan roddodd y dioddefwr fersiwn wahanol o'r digwyddiad yn y llys. Mewn saith o'r 11 achos cwblhawyd DASH RIC; ystyriwyd bod tri achos yn 'uchel' eu risg, dau yn 'ganolig' a dau achos lle roedd y risg yn is na'r trothwy a'u cofnodi 'heb eu nodi'. O'r rhai a gafwyd yn euog roedd pump yn wyrion, pedwar yn feibion ac un yn wraig. Cam-drin ariannol oedd y math mwyaf cyffredin o gam-drin a gofnodwyd. Mewn wyth achos, roedd tystiolaeth o ddefnydd o gyffuriau anghfreithlon a/neu gamddefnyddio alcohol.

Er mwyn cael rhyw arwydd o effaith menter y Peilot, casglwyd data cymharol ar gyfer ardal y cynllun dros dair blynedd cyn ei gychwyn. Daeth y data o achosion roedd yr heddlu wedi'u cofnodi ac yn berthnasol yn unig i achosion lle roedd y dioddefwyr dros 65 oed. Ceir y ffigyrau isod ochr yn ochr ffigyrau cymharol o sampl y Peilot.

Ffigwr 4:



Fel mae'r ffigyrau yn Nhabl 3 yn dangos, gwelwyd yn ystod blwyddyn y Peilot gynnydd amlwg yn nifer yr achosion o gam-drin yr henoed a gofnodwyd gan yr heddlu dros gyfnod o ddeuddeg mis. Cynhaliwyd asesiadau risg mewn tri chwarter o'r achosion hyn sy'n cynrychioli cynnydd yn y ffigwr cyfartalog ar gyfer y tair blynedd cyn cyflwyno'r cynllun Peilot. O ran yr achosion hynny lle cafodd y cyflawnwr ei arestio, o gymharu'r blynyddoedd cyn y Peilot â blwyddyn y Peilot doedd dim gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfartaledd yr asesiadau risg a gynhaliwyd. Ni chafwyd chwaith fawr o wahaniaeth yng nghyfartaledd yr achosion a arweiniodd at rywun yn cael ei gyhuddo; 34% a 37% yn eu tro o achosion a gofnodwyd.

Mae'r data cymharol hefyd yn datgelu bod *gostyngiad* sylweddol yng nghyfradd yr arestiadau a wnaed a *chynnydd* sylweddol yng nghyfradd yr euogfarnau rhwng y cyfnodau cyn ac ar ôl y Peilot. Ymhob un o ddeg achos y Peilot lle roedd y dioddefwr dros 65 oed, cyhuddwyd cyflawnwr a'u cael yn euog. Dros y tair blynedd cyn cyfnod y Peilot dim ond dau o'r deg cyflawnwr a gyhuddwyd a gafwyd yn euog yn y pen draw. Gall hyn awgrymu dull mwy deallus o fynd ati i arestio ac erlyn a gwell cyfathrebu rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Tabl 3: Canlyniadau cyfiawnder troseddol cyn y blyddoedd Peilot a'r flwyddyn Beilot

Blwyddyn	2008 N=12	2009 N=12	2010 N=17	Cyfanswm N=41	Peilot (2011) N=74
Arestio	9	9	11	29	27
Cyhuddo	3	4	3	10	10
Collfarn	1	1	0	2	10
Heb asesu risg (arestio)	1	3	3	7	7
Asesiad risg (yn gyffredinol)	11	6	10	27	55

Cyfyngedig oedd y mynediad i ffeiliau achos ar gyfer sampl y Peilot lle ystyriwyd erlyn cyflawnwyr. Fodd bynnag, o'r ffeiliau y cafwyd yr hawl i'w gweld aseswyd sail y penderfyniad i beidio ag erlyn. Roedd pob un o'r penderfyniadau i beidio ag erlyn yn gynaliadwy yn seiliedig ar y wybodaeth yn y ffeil. Fel arfer, y rheswm dros beidio ag erlyn oedd diffyg tystiolaeth ategol a'r dioddefwr yn gwrthod rhoi tystiolaeth. Ni fodlonwyd elfen dystiolaethol o'r prawf Cod Llawn. Roedd rhesymau'r dioddefwr dros beidio gwrthod â rhoi tystiolaeth yn amrywio wrth gwrs. Y berthynas deuluol ydy un rheswm, yn enwedig os ydy'r cyflawnwr yn wŷr neu berthynas agos gyda phroblem alcohol neu gyffuriau. Rheswm arall dros beidio â rhoi tystiolaeth efallai ydy ofn ar ran y dioddefwr ac mae hyn yn codi'r cwestiwn a ydyn nhw'n gwrthod o'u gwirfodd.

Gwnaed nifer o argymhellion yn yr adolygiad *Mewn Dwylo Diogel* am fynediad i gyfiawnder. Roedd yr argymhellion hynny yn canolbwyntio'n bennaf ar y system gyfiawnder troseddol ac yn cynnwys ymglymiad cynnar Gwasanaeth Erlyn y Goron, cymorth eiriolwr, cymorth cefnogol cynhwysfawr tebyg i fodel yr Uned Ddiogelu ar gyfer cam-drin domestig honedig. O'r data cyfyngedig oedd ar gael am y penderfyniad i erlyn, mae'n ymddangos i'r cyfarwyddyd a'r polisi yn nogfennau Gwasanaeth Erlyn Y Goron ar droseddau yn erbyn pobl hŷn (CPS, 2008a; 2008b; 2009) wedi cael eu dilyn. Mae'r polisi a'r cyfarwyddyd yn darparu neges gadarn ar sut i ddefnyddio'r prawf Cod Llawn yn achos pobl hŷn yn dioddef camdriniaeth.

Mae'n anodd o'r data oedd ar gael farnu pryd yr ystyriwyd y gellid defnyddio mesurau arbennig a gan bwy. Gall mesurau arbenig wneud gwahaniaeth rhwng erlyn a pheidio ag erlyn.

Canlyniadau cyfiawnder sifil

Yn yr un modd â'r gyfraith droseddol dydy'r gyfraith sifil ddim yn cynnig yr ateb perffaith ond gall ddarparu diogelwch i ryw raddau (er enghraifft gorchymyn o dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 neu orchymyn gwahardd o dan Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997). Mantais ychwanegol o ddefnyddio'r gyfraith sifil ydy bod safon y prawf 'yn ôl yr hyn sy'n debygol' yn hytrach na phrawf llymach achosion troseddol sef 'tu hwnt i amheuaeth resymol'. Mewn achosion sy'n cynnwys aelodau o'r teulu gall y gyfraith sifil fod yn llai brawychus i'r dioddefwyr na defnyddio'r gyfraith droseddol.


Dim ond mewn pedwar achos yn y Peilot, y pedwar yn ymwneud â merched o ddioddefwyr, a straen gofalwr, y ceisiwyd remedi sifil. Mewn tri o'r achosion hyn y mab oedd y cyflawnwr ac mewn un achos y fam oedd yn cam-drin. Cafwyd canlyniadau llwyddiannus mewn tri achos: mewn un rhoddwyd gorchymyn gwahardd yn erbyn y cyflawnwr ac yn y ddau achos arall arwyddwyd gorchymyn Gwarcheidwad Cyhoeddus. O edrych ar y CMRau a'r dadansoddiad o'r ffeiliau achos, nodwyd 10 achos arall lle gellid fod wedi defnyddio'r system cyfiawnder sifil.

Mae'n anodd dyfalu pan na wneir mwy o ddefnydd o remediau sifil. Yn ddio-os, mae'r ffaith nad oes trafod ar yr opsiynau (yn y samplau cyn ac ar ôl y Peilot, ni thrafodwyd opsiynau mewn dwy ran o dair o'r achosion) yn ffactor. Yn ychwanegol at hyn, mae'r ffaith bod clwstwr o gofnodion lle nad yw'n wybyddus a drafodwyd opsiynau. Efallai nad yw ymarferwyr yn ymwybodol o ba opsiynau sydd ar gael neu eu bod yn cymryd yn ganiataol na fyddai'r person yn gallu fforddio i fynd i achos sifil. Rhaid codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r gyfraith sifil a sut i gael mynediad i gyngor a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio'r gyfraith sifil. Os nad yw dioddefwyr o leiaf yn ymwybodol o'r opsiynau yna mewn gwirionedd, maen nhw wedi colli grym. Mewn achosion sy'n cynnwys analluedd, gall yr IMCA wneud cyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth ar p'un ai defnyddio'r gyfraith sifil ai peidio.

(ii) Proffil cam-drin ar ddiwedd yr ymyrraeth

Un ateb posibl i'r canlyniad ydy proffil y cam-drin a gofnodwyd yn y CMR ar ddiwedd yr ymyrraeth. Fodd bynnag, fel y dengys Ffigwr 5, gydag achosion 'un math' er na chofnodwyd unrhyw achos oedd yn 'fwy difrifol', nifer gymharol fechan o achosion a ddisgrifiwyd yn 'llai difrifol'. O dderbyn y nifer fawr o ymatebion 'heb ei nodi' a 'ddim yn gwybod', mae'n anodd dod i unrhyw gasgliad cadarn am unrhyw newid ym mhatrwm y cam-drin ar gyfer y garfan hon.

Ffigwr 5: Proffil camdriniaeth ar ddiwedd yr ymyrraeth (un math o gamdriniaeth)




Allwedd: **DK**= Ddim yn gwybod (Don't Know); **NA**= Heb ofyn iddyn nhw (Not Asked); **MS** = Mwy Difrifol (More Severe); **LS**= Llai Difrifol (Less Severe); **NC** = Heb gwblhau (Not Completed); **NI** = Heb ei Ddangos (Not Indicated)

O'r 16 achos lle profodd y dioddefwr ddau fath o gamdriniaeth, cofnodwyd bod pedwar yn 'llai difrifol' ar ddiwedd yr ymyrraeth. Fodd bynnag, cofnododd y CMR 'heb ei nodi' mewn 10 achos a chofnodwyd dau achos fel 'ddim yn gwybod'. Mewn naw achos lle profwyd tri math o gamdriniaeth, cofnodwyd bod pedwar yn 'llai difrifol', pedwar 'heb ei nodi' ac un 'ddim yn gwybod'. Roedd hi'n bryder mai prin oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau am broffil y cam-drin wrth gau'r achos; efallai bod hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y galw ar adnoddau.

(iii) Cyfeirio

Un o amcanion sylfaenol y Peilot oedd hyrwyddo ymateb aml-asiantaethol i gam-drin yr henoed er mwyn galluogi dioddefwyr gael mynediad i opsiynau sicrhau cyfiawnder a gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth gwasanaeth sydd eisioes yn bodoli yn cael ei defnyddio. Mae Ffigwr 6 isod yn cymharu'r nifer o gyfeiriadau a wnaed gan yr asiantaeth cyswllt cyntaf (yr heddlu yn yr achos hwn) yn ystod cyfnod y Peilot gyda chyfartaledd blynyddol y cyfnod o dair blynedd cyn lansio Peilot, 'Mynediad i Gyfiawnder'. Gwelir bod cynnydd yn nifer yr achosion gafodd eu cyfeirio.

Ffigwr 6: Effaith Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' ar gyfeirio



Mae'r cynnydd hwn mewn cyfeirio fel pe bai'n dangos bod y Peilot wedi cael peth effaith ar godi ymwybyddiaeth wrth ymateb i gam-drin yr henoed. Y farn gyffredin oedd bod 'Mynediad i Gyfiawnder' wedi rhoi hwb i ehangu gwybodaeth ymarferwyr am gam-drin yr henoed fel ffurf o gam-drin domestig. Er bod asiantaethau'n cefnogi ethos y Peilot, cydnabuwyd bod angen newid arferion er mwyn delio ag anghenion pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin:

'Dw i'n meddwl bod tipyn o waith i'w wneud eto i gael at y bobl briodol yn yr asiantathau hynny i sicrhau bod camau gweithredu a llwybrau priodol yn cael eu cymryd ond dw i'n meddwl bod y Peilot wedi gwneud cam mawr ymlaen. I mi, mae'n faes newydd o waith. Mae'n ehangu fy mhrofiad ac yn sicr wedi rhoi problemau newydd i mi ddelio â nhw, materion don i ddim wedi meddwl amdany'n nhw cyn y Peilot.'

(Rheolwr Arbenigol mewn cam-drin domestig: 3)

(iv) Cyfranogwyr OPAN

Er mwyn cael cipolwg ar farn y bobl hŷn eu hunain cyfwelwyd sampl bach (n=13) o aelodau OPAN (Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio) a chwblhau holiadur byr. Ceir manylion demograffig gymdeithasol ymatebwyr yn Nhabl 4 isod. Nid ei fwriad oedd bod yn sampl gynrychioliadol, ond y teimlad oedd y byddai o fantais i'r astudiaeth gael barn unigolion oedd o'r un garfan oed â'r grŵp defnyddwyr. Yn ystod y cyfweiliadau unigol, daethon i wybod bod un cyfwelai yn gyn-ddioddefwr.

Tabl 4: Nodweddion demograffig-gymdeithasol yr ymatebwyr

Oedran	Rhyw	Addysg *	Ethnigrwydd	Anabledd	OPAN **
Ystod Oedran: 61-80	5 dyn 8 merch	Roedd 7 o'r sampl wedi eu haddysgu hyd at lefel is- raddedigion neu uwch.	7 Cymry Prydeinig 5 Prydeinig	3 wedi eu cofrestru'n anabl	13 mewn gwaith gwirfoddol, 5 hefyd mewn gwaith cyflogedig llawn neu ran amser
Cyfartaledd oedran: 71 mlwydd oed			1 Asiaidd Prydeinig		

* Uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

** Rhwydwaith Heneiddio Pobl Hŷn

Lluniwyd yr holiadur a siediwl y cyfweiliadau i gael barn a safbwyntiau ar y defnydd o opsiynau cyfiawnder a/neu lles pan fydd pobl hŷn yn dioddef cam-drin domestig. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr beth, yn eu tyb nhw, fyddai dioddefwyr hŷn yn ei ddymuno, soniwyd yn fynych am y canlynol:

- i'r cam-drin stopio;
- triniaeth ar gyfer y cyflawnwr;
- i'r cyflawnwr gydnabod y niwed a achosodd;
- llais;
- ymglymiad canolog yn y broses o chwilio am remedi cyfiawnder troseddol neu sifil a chymorth drwy'r broses honno;
- gorchymyn gwahardd i'w diogelu;
- diogelwch rhag dial/darpar erledigaeth;
- i deimlo'n ddogel.

Roedd hi'n glir o'r cyfweiliadau bod yr ymatebwyr yn sensitif i'r ddeinameg gymhleth mewn sefyllfa pan fo'r cyflawnwr yn perthyn i'r dioddefwr. Doedd dim tystiolaeth eu bod yn beio'r dioddefwr. Y farn oedd bod angen dull sensitif a holistaidd i fynd ati i ddelio â'r sefyllfa, dull a fyddai'n cynorthwyo pob parti perthnasol.

Nododd llawer o'r cyfranogwyr petaen nhw'n dioddef camdriniaeth bydden nhw'n fwy tebygol o ymddiried mewn person proffesiynol yr oedden nhw wedi cael cysylltiad ag e/ â hi eisoes megis meddyg teulu:

'Byddwn i'n siarad â fy meddyg teulu, aelodau o fy eglwys, person ron i'n ymddiried ynddo/ynddi. Dw i ddim eisiau i bethau fynd o ngafae i.... mae cadw urddas a hunanbarch yn bwysig iawn i bobl hŷn dwi'n credu. Dwi'n meddwl byddwn i'n nerfus i siarad gyda rhywun dieithr yn arbennig rhywun mewn awdurdod..... y berthynas sydd gyda chi â phobl fel eich meddyg teulu sy'n bwysig, ymddiriedaeth ydy hynny.'
(Menyw a gafodd ei chyfweld: 2)

O ystyried sefyllfa lle roedd mab yn cam-drin ei fam roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn mynegi pryder dros y rhiant. Roedd cyfranogwyr yn

sylweddoli'r cyfyng-gyngor roedd y rhiant yn ei wynebu o ran dioddef y gamdriniaeth ond eto ddim am fynd i gyfraith a allai olygu dedfryd droseddol i'w mab. Y farn oedd ei bod yn bwysig ystyried y sefyllfa o safbwynt y rhiant o ran datrys problem y cam-drin:

'Rydyn ni'n teimlo'n gyfrifol dros ein plant, doed a ddelo, rydyn ni'n teimlo y dylen ni fod yna iddyn nhw pan na fydd neb arall. Rydyn ni'n barod i ddioddef mwy ganddyn nhw na fydden ni dan law neb arall. felly ein rôl fel rhieni ydy helpu ein plentyn, felly yn yr achos hwn byddai'r fam angen yr asiantaeth i roi help i'w mab, neu fydd y broblem yn parhau i fodoli, gwaethygu o bosibl, mae'n drist iawn...'

(Menyw gafodd ei chyfweld: 5)

Teimlai'r cyfranogwyr y byddai'r dioddefwr yn bennaf eisiau i'w mab gael help i oresgyn ei ddibyniaeth ar sylweddau. Y farn oedd y byddai mynd i'r afael â phroblemau ac anghenion y mab yn fodd o leihau'r risg o gam-drin pellach.

Dywedodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr mai opsiwn gorchymyn sifil fyddai'r opsiwn cyfiawnder mwyaf tebygol y byddai'r dioddefwr yn ei ddilyn, ond y teimlad oedd mai dim ond pan fetho popeth arall fyddai'r dioddefwr yn defnyddio'r dull hwn. Roedd pryderon hefyd am gost gorchmynion sifil, a mynediad i wybodaeth amdanyn nhw.

'Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael mewn mannau y mae pobl hŷn yn mynd iddyn nhw – meddygfeydd ac ysbytai, grwpiau cymunedol, canolfannau dydd. Dw i'n nabod un hen wreigan a aeth i'r Ganolfan Gynghori ar fater arall; cyrhaeddodd am 8am ac aros yn y ciw am ddwy awr nes na allai hi ddioddef rhagor. Nawr, pam na chawn ni ddiwrnod arbennig unwaith bob pythefnos dweder, pan fyddai pobl hŷn yn gallu cael apwyntiad deg munud naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb?'

(Dyn gafodd ei gyfweld: 3)

O ystyried straen gofawr, roedd llawer yn cydymdeimlo â'r dioddefwr hŷn a'r cyflawnwr o fenyw, o dderbyn bod y berthynas rhyngddyn nhw wedi dirywio yn ddiweddarach yng nghwrs eu bywyd. Mynegodd pob cyfranogwr bryder y gallai'r dyn ddioddef lefel llawer uwch o gam-drin oherwydd a) bod disgwyl i'r dyn mewn priodas fabwysiadu rôl amddiffynnol fel y prif ddarparwr a b) nad oedd dynion mewn sefyllfa i gyfaddef eu bod yn cael eu cam-drin oherwydd y stereoteipiau negyddol yn gysylltiedig â dynion sy'n dioddef.

Y farn gyffredinol oedd bod angen i asiantaethau fod yn fwy dychmygus o ran addysgu pobl hŷn am natur cam-drin yr henoed a darparu cyngor a chymorth. Roedd unrhyw gymorth yn dibynnu ar berthynas gadarn a llawn ymddiriedaeth gyda pherson proffesiynol a fyddai'n rhagweithiol a sensitif i anghenion yr unigolyn.

'Ar y pryd dydych chi ddim yn ddigon cryf i ddelio ag e ar eich pen eich hunan. Ron i'n ffodus iawn. Ron i'n arfer mynd i'r eglwys cyn i mi fynd i 'nghragen, yna es i nôl, croesawodd yr eglwys fi nôl, heb ofyn dim'

*cwestiynau ... dim ond gofalu amdana i drwy'r amser dyna'i ffordd
nhw o'i wneud, yn dyner dyner, yn ofalus ofalus....'*

(Dioddefwr o ddyn)

Ystyriwyd bod y trydydd sector yn allweddol i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer datgelu ac felly ystyriwyd bod hyfforddiant yn hanfodol yn y maes hwn. O'u cyferbynu ag asiantaethau statudol, y farn oedd bod sector y darparwyr gwasanaeth yn annibynnol ac yn fwy cymwys i ymateb i anghenion yr unigolyn.

'Mae'n ymwneud â pherthynas, a hynny gan bobl sy'n gweithio ar lefel sylfaenol, eich Age Concern, eich gwirfoddolwyr mewn grŵp cymunedol. Felly, yn fy marn i dyma'r bobl y byddai person hŷn yn ymddiried ynddyn nhw ac felly dyma'r bobl sydd angen hyfforddiant i ddysgu sut i ddelio â nhw a pheido â'u barnu. Dydy pobl hŷn ddim yn hoff o gael eu gwrthio, maen nhw'n hoffi teimlo mai eu dewis nhw oedd e; mae perthynas fel hyn yn cymryd amser i ddatblygu.'

(Dyn gafodd ei gyfweld: 1)

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod pobl hŷn yn gyffredinol ddim yn ystyried eu bod yn cael cyfiawnder drwy ei wneud yn achos troseddol. Fodd bynnag, roedden nhw'n teimlo y dylid rhoi sylw i unrhyw ganlyniad llwyddiannus a dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i brofiadau positif dioddefwyr o ddefnyddio'r gyfraith sifil a throseddol.

6. Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylid ystyried sut gellir integreiddio gweithdrefnau, polisïau a chyfarwyddyd ar drais domestig a cham-drin yr henoed yn fwy effeithiol.

Yn ôl ei rhaglen ddeddfwriaeth bum mlynedd mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddau ddarn o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gam-drin yr henoed. Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) ydy'r cyntaf, mesur a fydd yn debygol o gynnwys adran ar amddiffyn a diogelu oedolion sydd mewn perygl a gosod dyletswyddau a chyfrifoldebau ar awdurdodau lleol a chyrff eraill y sector cyhoeddus. Yr ail ydy Mesur Cam-Drin Domestig (Cymru). Bydd y mesur hwn yn debygol o gynnwys rhoi dyletswydd ar gyrff y sector cyhoeddus i feddu ar strategaeth ar Gam-drin Domestig a Thrais yn erbyn Menywod ac i roi'r cymorth angenrheidiol yn ei le.

Wrth werthuso Prosiect 'Mynediad i Gyfiawnder' dynodwyd gorgyffwrdd sylweddol rhwng trais domestig a cham-drin yr henoed. Yn wir, tarddiad y prosiect, adolygiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant a dogfen *The Right to be Safe*, (Hawl i fod y Ddiogel) y Llywodraeth, ydy trais domestig. Penderfyniad gwleidyddol ydy cael dau ddarn o ddeddfwriaeth a thu hwnt i sgôp yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y ddau yn cael eu integreiddio ac yn gyson â'i gilydd. Gellir cyflawni hyn mewn nifer o ddulliau.

- a. Byddai cyhoeddi cod ymarfer cyffredin i'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn sialens i'r rhai fydd yn drafftio'r cod a'r ddeddfwriaeth. Byddai angen i'r berthynas rhwng y cod a darnau unigol y ddeddfwriaeth fod yn union yr un fath er mwyn osgoi dehongliadau gwahanol o'r un ddarpariaeth yn y cod, yn ddibynnol ar ba ddarn o'r ddeddfwriaeth oedd dan ystyriaeth.
- b. Byddai drafftio cyd-egwyddorion (drwy ddefnyddio egwyddorion statudol cyffredin ar wyneb pob darn o ddeddfwriaeth neu drwy gyfarwyddyd cyffredin adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol) ar gyfer y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn hwyluso mwy o'r integreiddio. Mae rhai o'r problemau a nodwyd yn a) yn berthnasol yn yr un modd, ond gellir canfod a chymhwyso egwyddorion a rennir (er enghraifft, ymreolaeth a hunan-benderfyniad, urddas, diogelwch, galluedd, cymorth i wneud eu penderfyniadau).
- c. Dull technegol o fynd ati fyddai protocolau cytûn ar sut bydd asiantaethau'n gweithio o fewn y ddau ddarn o ddeddfwriaeth, dull wedi ei lunio i leihau'r risg o orgyffwrdd a dyblygu.

Ni wneir unrhyw argymhelliad cadarn o ran y mater hwn ar wahân i'r ffaith ei fod yn fater i'w ystyried wrth i'r ddau fesur fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol.

Argymhelliad 2: Dylai ymarferwyr geisio mabwysiadu model a fydd yn sicrhau mwy o integreiddio gan POVA o broses MARAC mewn achosion o gam-drin domestig er mwyn cynyddu cyfleoedd lles a chyfiawnder i ddioddefwyr. (Yn Atodiad D, ceir y model arferion arfaethedig ym Mhrosiect Peilot Powys [2011]).

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod proses MARAC wedi cyflawni cyfraddau uwch o ganiatâd, mwy o fynediad i gyfleoedd cyfiawnder o ran ystod yr opsiynau a drafodwyd gyda'r dioddefwyr a gwell mynediad ac ymglymiad i sefydliadau'r trydydd sector. Ar hyn o bryd, ni ddefnyddir proses DASH RIC/MARAC i'w lawn fantais yn arbennig gan iechyd a gofal cymdeithasol. Mae angen i'r IDVA, IMCA ac eiriolwyr eraill fynychu cyfarfodydd POVA yn rheolaidd fel y gallan nhw gyfleu barn eu cleientiaid unigol.

Argymhelliad 3: Dylai ymarferwyr gofnodi sail casgliad bod gan y dioddefwr alluedd cyfreithiol i gymryd rhan yn y broses ymchwilio.

Dydy hi ddim yn angenrheidiol cynnal prawf llawn ar gyfer galluedd ymhob achos neu yn wir yn y rhan fwyaf o achosion gan fod rhagdybiaeth o alluedd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA 2005) yn fan cychwyn cadarn. Fodd bynnag, dylai ymarferwyr, hyd yn oed mewn achosion lle nad amheuir galluedd gofnodi beth ydy sail eu casgliad. Dim ond cofnod byr fyddai cofnod o'r fath ond byddai'n dangos bod mater galluedd wedi cael ei drin a'i drafod.

Argymhelliad 4: Dylai ymarferwyr sicrhau lle tybir ei fod yn briodol, bod materion galluedd yn cael eu hystyried drwy gydol y broses ymchwilio.

Mewn achosion o amheuaeth am alluedd, dylid cynnal prawf galluedd addas ar ba byhnnag gam o'r broses yr ystyrid fod angen. Yn ôl yr MCA 2005, mae prawf galluedd yn sensitif i amser a chyd-destun. Dydy'r ffaith bod gan y dioddefwr alluedd ar gyfer un rhan neu fwy o'r broses yn golygu bod gamddfo/ganddi alluedd ar gyfer pob rhan ac i'r gwrthwyneb. Dylai pob asiantaeth a sefydliadau gwirfoddol yn cynnwys y rhai yn y system cyfioawnder troseddol yn gyfarwydd â darpariaeth yr MCA 2005 ac efallai ei berthnasedd posibl i'w hymglymiad gyda'r dioddefwr. .

Argymhelliad 5: Mewn achosion lle mae diffyg galluedd gan y dioddefwr, dylid rhagdybio bydd IMCA yn rhan o'r broses, ac yn gynnar yn y broses yn hytrach na thua diwedd y broses ymchwilio. Dylai'r rhagdybiaeth hon fod yn amodol ar, er enghraifft, dystiolaeth bod person addas arall yn cynrychioli buddiannau'r dioddefwr.

Mae rhagdybiaeth o ymglymiad gan IMCA yn gynnar yn y broses yn warant bod dulliau diogelwch yn eu lle ar gyfer dioddefwr analluog wrth wneud penderfyniadau cynnar a allai gael effaith sylweddol ar ganlyniad y broses. Gall gohirio apwyntiad tan i'r broses ymchwilio gael ei chwblhau fod yn anfanteisiol iawn i'r dioddefwr sydd â diffyg galluedd.

Argymhelliad 6: Dylid gwerthuso ymatebion asiantaethau statudol i ddioddefwyr hŷn sydd â diffyg galluedd. Dylai'r gwerthusiad ystyried pa mor effeithiol ydy arferion aml-asiantaethol i sicrhau ei fod yn ddioddefwr-ganolog a bod asiantaethu'n gallu darparu tystiolaeth o ganlyniadau positif pendant. Dylid talu sylw arbennig i faint o ddefnydd y mae gwasanaethau oedolion a ieched yn ei wneud o wasanaeth IMCA ac effaith rôl IMCA wrth gynorthwyo dioddefwyr analluog sy'n cael eu cam-drin.

Mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod rhai achosion oedd yn ddiangen o hirfaith lle roedd dioddefwyr yn analluog. Mae'r oedi cyn ymyrryd yn bositif yn annerbyniol mewn achosion unigol ac o bosibl yn rhwystro pobl â diffyg galluedd rhag cael eu hawliau EHCR. Ar ben hynny, mae erthygl 6 ECHR yn cyfeirio at wrandawriad teg 'o fewn amser rhesymol'. Collwyd achosion oedd yn cyflawni meini prawf ar gyfer cyfeirio at IMCA. Roedd o leiaf 30 achos lle cafwyd ymholiadau am alluedd ac mae'n ymddangos nad oedd ymarferwyr yn ymwybodol y gallen nhw ofyn am help IMCA.

Argymhelliad 7: Dylid seilio penderfyniad i ddefnyddio mesurau arbennig mewn achosion troseddol ai peidio ar asesiad o ba mor agored i niwed mae dioddefwr a wnaed drwy gydol y broses ymchwilio. Dylai ymarferwyr sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad hwnnw ar gael i Wasanaeth Erlyn y Goron.

Gall y penderfyniad i ddefnyddio mesurau arbennig benderfynu a fydd erlyniad yn mynd ymlaen. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, mae'n bwysig bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymwybodol o'r holl wybodaeth berthnasol gan gynnwys asesiadau o'r dioddefwyr gan ymarferwyr eraill.

Argymhelliad 8: Dylid ystyried ymestyn Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder; am ddwy flynedd ymhellach.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, er y bu cynnydd yn nifer y cyfeiriadau drwyddi draw ac er y cafwyd cefnogaeth i ethos gyffredinol y Peilot, mae angen i gyrff statudol a'r trydydd sector ddefnyddio dull mwy integredig effeithiol o ymdrin â cham-drin yr henoed. Dylai hyn gynnwys gwell cydweithio rhwng asiantaethau statudol yn ogystal â chydweithredu agosach rhwng sefydliadau statudol a'r trydydd sector.

Wrth ymestyn y Peilot, rhaid ystyried y canlynol:

- a. darpariaeth bellach o adnoddau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o gam-drin yr henoed fel ffurf ar gam-drin domestig.
- b. lledaenu gwybodaeth ymhellach ar sut y gall caniatâd a materion galluedd ddylanwadu ar lwybrau cyfeirio ac opsiynau cyfiawnder sifil.
- c. adolygu strategaethau pobl broffesiynol maes ieched ar gyfer canfod cam-drin yr henoed a rôl ieched ym mhrosesau POVA/MARAC.
- d. darpariaeth ar gyfer yr heddlu i baratoi adnoddau i barhau i ddefnyddio gwiriadau diogelwch.

- e. hyfforddiant gorfodol ar y defnydd o DASH RIC/MARAC a gwasanaethau cam-drin domestig ar gyfer ymarferwyr y mae eu cleintiaid yn cynnwys rhai dros 60 oed.
- f. hyfforddiant gwaith cymdeithasol ar rôl yr IMCA, IDVA a delio gyda chyflawnwyr gelyniaethus.
- g. hyfforddiant i dimoedd camddefnyddio sylweddau o ran natur cam-drin domestig yn enwedig mewn cydnabod bod cam-drin yr henoed yn ffurf o gam-drin domestig.
- h. timoedd camddefnyddio sylweddau yn caffael rôl fwy canolog wrh weithio gyda chyflawnwyr (e.e. cael mynediad at gyflawnwyr mewn celloedd yn y ddalfa).
- i. mabwysiadu 'model Powys' er mwyn sicrhau gwell integreiddio o brosesau POVA/MARAC.
- j. cynnal cyfarfodydd ar y Peilot yn golygu sesiynau adborth a hyfforddiant ar lefel strategol a gweithredol rhwng asiantaethu statudol a sefydliadau'r trydydd sector.
- k. pob asiantaeth i ddefnyddio samplau ar hap yn rheolaidd i brofi arf DASH RIC a chael gwasanaethau cymdeithasol i wneud mwy o ddefnydd o arf DASH RIC er mwyn gwerthuso a ydy'r fersiwn ddiwygiedig yn mesur cam-drin domestig yn fwy cywir yng nghydestun cam-drin yr henoed.
- l. cynyddu'r defnydd o eiriolwyr yn arbennig, ond ddim yn gyfyngedig, i'r IDVA a'r IMCA o gofio pwysigrwydd datblygu perthynas rhwng y cleient a'r ymarferwr mewn achosion o gam-drin yr henoed.

Argymhelliad 9: Dylai'r asiantaethau statudol fod yn fwy ymwybodol o'r cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector ac, mewn achosion priodol, gyda chaniatâd y dioddefwr, y dylai'r trydydd sector fod yn rhan o'r ymateb rhyng-ddisgyblaethol.

Mae'r arbenigedd a'r cymorth sydd i'w gael yn y trydydd sector yn adnodd gwerthfawr y dylid ei ddefnyddio'n amlach. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod pobl hyn yn dod yn fwy o ran o'r broses pan oedd corff o'r trydydd sector yn cymryd rhan. Roedd yna gred bod ymarferwyr y trydydd sector yn rhoi cymorth diduedd ac annibynnol, oedd yn rhoi grym i'r person hyn mewn modd na allai'r asiantaethau statudol efallai ei gynnig.

Argymhelliad 10: Dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu adnoddau i'r trydydd sector i gyllido cymorth i godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a chymorth eiriolaeth.

Cymorth a chysylltu

- a) Byddai'r fenter yn golygu codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy dargedu, er enghraifft, mannau lle mae pobl hyn yn ymgasglu. Byddai'n seileidig ar fodel allgymorth ac yn cysylltu â phobl hyn mewn lleoliadau cymunedol (canolfannau dydd, eglwysi, canolfannau hamdden ayb).
- b) Byddai'r fenter yn golygu cysylltu â chynrychiolwyr MARAC a'r POVA i fanteisio ar eu profiad, a chanfod unrhyw gyfeirio sydd ar y funud yn mynd 'ar goll' yn y broses.

- c) Byddai'r elfen cymorth i eiriolwyr yn cynnwys darparu cyngor a chanllaw i eiriolwyr am yr opsiynau cyfreithiol troseddol a sifil, ac ar sut i gadw cofnod effeithiol gan ddefnyddio'r dull IDVA fel templed.


Hyfforddiant

- a) Dylid darparu hyfforddiant ar gyfer y gofalwyr, asiantiaethau tai cymdeithasol, grwpiau cymorth tenantiaid ac eraill ar sut i ganfod cam-drin yr henoed a sut i wneud y cyfeirio priodol at MARAC, IDVA's, IMCA a'r system cyfiawnder troseddol.
- b) Mae ystod o ymarferwyr a rheolwyr sy'n ymddangos fel pe bai'n nhw ddim yn ymwybodol o arwyddocâd y DASH RIC, byddai rhan o'r swyddogaeth yn golygu targedu'r hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'r arf DASH RIC, a hyfforddi am gam-drin domestig mewn pobl hŷn.
- c) Mae yna wybodaeth gyfyngedig am y modd y mae cam-drin yr henoed yn cael effaith ar ddynion, gan fod cam-drin yr henoed yn ymddangos fel pe bai'n llai dibynnol ar ryw pobl na mathau eraill o gam-drin domestig, dylai codi ymwybyddiaeth geisio tanlinellu'r profiad o gamdriniaeth ar ddynion.
- d) Byddai'r rôl yn golygu cynhyrchu taflen am gynllunio i ddiogelu pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin a rhoi gwybod i ddioddefwyr am gyswllt lleol lle gallan nhw gael gwybodaeth a chynghor am yr opsiynau cyfiawnder sydd ar gael ar eu cyfer.
- e) Dylai'r swyddogaeth gynnwys cysylltu â/ a hyfforddi pobl broffesiynol allweddol ym maes iechyd sy'n gweithio â phobl hŷn (meddygon teulu, nyrsys ardal, ymwelwyr iechyd, Adrannau Damwain ac Argyfwng (A&E) a Chlinigau Cwmp). Dylai cydweithio â maes iechyd i greu rhagor o gyfeirio fod yn flaenoriaeth.


Cyfeiriadaeth

- A v United Kingdom* (1999) 27 EHRR 61. (Adroddiadau Hawliau Dynol Ewropeaidd) Mynediad i Gyfiawnder - Access to Justice (2011) *Access to Justice Pilot for Older Vulnerable People: Domestic Abuse*, dogfen Gweithgor.
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2010) *National Inspection of Adult Protection: All Wales Overview*. Ar gael ar y wefan: <http://www.nmc-uk.org/Documents/Safeguarding/Wales/1/National%20Inspection%20of%20Adult%20Protection%20All%20Wales%20Overview.pdf>. (darllenwyd 20^{fed} Gorffennaf 2012).
- Gwasanaeth Erlyn y Goron (2008a) *Crimes against Older People: CPS Prosecution Policy*, Llundain: CPS.
- Gwasanaeth Erlyn y Goron (2008b) *Guidance on Prosecuting Crimes against Older People*, Llundain: CPS.
- Gwasanaeth Erlyn y Goron (2009) *Policy for Prosecuting Crimes against Older People*, Llundain: CPS.
- Davies, R. et al., (2011) *Exploring the motivations of perpetrators who abuse vulnerable adults*, Prifysgol Cymru, Casnewydd.
- Hester, M. (2009) *Who Does What to Whom? Gender and Domestic Violence Perpetrators*, Bryste: Prifysgol Bryste mewn cydweithrediad â Sefydliad y Northern Rock Foundation.
- Magill, J., Yeates, V. & Longley, M. (2010) *Adolygiad o 'Mewn Dwylo Diogel': Adolygiad o Gyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yng Nghymru*, Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC), Prifysgol Morgannwg.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar Waith yng Nghymru* – Canllawiau gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Leol 1970. Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- http://cymru.gov.uk/docrepos/40382/dhss/socialservices/reportsenglish/safehands_e.pdf?lang=en. (darllenwyd 20^{fed} Gorffennaf 2012).
- Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) *Cam-drin Domestig yng Nghymru: Mynediad i Gyfiawnder a Rheolaeth Cyfraith*. Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Richards, M. and Kaye, A. (2011) *Adult Protection and Domestic Abuse: Strengthening the Links*, Adroddiad Interim, Prosiect Peilot Powys
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Yr Hawl i fod yn Ddiogel*. Ar gael ar: <http://wales.gov.uk/docs/dsijlg/publications/commsafety/100325besafefinalenv1.pdf>. (darllenwyd 20^{fed} Gorffennaf 2012).
- X v Netherlands* Application 8978/80.
- Z v United Kingdom* (2002) 34 EHRR 97.


Atodiad A: Llwybrau Cyfeirio: 'Mapiau Proses'



**“Peilot mynediad i gyfiawnder i bobl hŷn agored i niwed”
Llwybr Cyfeirio Cam-drin Domestig yn dilyn datgeliad o gam-drin
(Dioddefwr gyda galluedd ac heb fod yn rhoi caniatâd i rannu gwybodaeth)**



**“Peilot mynediad i gyfiawnder i bobl hŷn agored i niwed”
Llwybr Cyfeirio Cam-drin Domestig yn dilyn datgeliad o gam-drin
(Dioddefwr heb y galluedd meddyliol i roi caniatâd i rannu gwybodaeth)**



Atodiad B: Cofnod Rheoli Achos

GWERTHUSO Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'

COFNOD RHEOLI ACHOS Y CYFRANOGYDD ER MWYN DARPARU CIPLUN AR EFFAITH Y PROSIECT PEILOT

RHAN 1. PWYNT CYSWLLT

ADRAN A: MANYLION Y CLEIENT

Rhif Adnabod y Cleient (ID. No) (Gweler y canllaw ar gasglu data)	
Dyddiad y cyswllt cyntaf:	
Asiantaeth Cyswllt Cyntaf:	
Rhyw y cleient:	
Benyw (Nodwch gydag X)	
Gwryw (Nodwch gydag X)	
Cleient ag anabledd: Ydy / Na / Dim gwybodaeth	
BME (Nodwch gydag X)	
LGBT (Nodwch gydag X)	

Proffil cam-drin adeg y pwynt cyswllt:		
Nodwch y math(au) o gam-drin (Nodwch gydag X).		Oes
Corfforol		
Rhywiol		
Ariannol		
Esgeulustod		
Seicolegol/ Emosiynol		

Perthynas y Cyflawnwr Honedig i'r dioddefwr	
---	--

Gwr / Gwraig / Partner / Cyn bartner	
Mab / Merch	
Wyr neu Wyres	
Arall	

ADRAN B: CANIATÂD A CHANFYDDIAD O'R RISG

Marciwch 'X' ym mhob blwch sy'n berthnasol	Ydy	Na
Cleient yn rhoi caniatâd i rannu gwybodaeth		
Y Ffurflen heb nodi os rhoddwyd caniatâd		
Cleient heb y galluedd meddyliol i roi caniatâd		
Rhestr Wirio Dangosydd Risg DASH heb ei gwblhau		
Rhestr Wirio Dangosydd Risg DASH – methu ei gwblhau		
Os yn methu cwblhau DASH, nodwch y rhesymau am hynny isod		
Dioddefydd yn gwrthod â chydweithredu.		
Y Cyflawnwr yn bresennol, heb fod yn ddiogel i'w gwblhau		
Y Dioddefwr heb y galluedd meddyliol i'r gwblhau		
Lefel y risg a ganfyddir:		
Uchel		
Canolig		
Safonol		
Heb ei nodi		

ADRAN C: CYFEIRIO AT MARAC / GWASANAETHAU CYMORTH ERAILL

	Do	Naddo
Cyfeiriwyd at MARAC:		

Cyfeiriwyd at IDVA :		
Cyfeiriwyd at IMCA:		
Cyfeiriwyd at Y Gwasanaethau Oedolion:		
Cyfeiriwyd at Wasanaeth Cymorth Lleol:		
Cyfeiriwyd at Yr Heddlu:		
Opsiynau CyfiawnderSifil//Troseddol wedi eu trafod â'r Dioddefwr		

RHAN 2. CANLYNIADAU

1. Rhowch X yn y Blwch os Na Weithredwyd Ymhellach	
--	--

ADRAN A: PROSES CYFIAWNDER TROSEDDOL/SIFIL. PROFFIL CAMDRINIAETH

(I'W GWBLHAU AR DDIWEDD YR YMYRRAETH A'R CYMORTH).

2. Cyfiawnder Troseddol:

	Do	Naddo	Dim gwybodaeth
1. Arestio'r Cyflawnwr Honedig:			
2. Cyhuddo'r Cyflawnwr Honedig:			
3. Euogfarnu'r Cyflawnwr:			
4. Gollwng yr achos:			

3. Cyfiawnder Sifil

	Do	Naddo	Dim gwybodaeth
1. Cyfeirio'r achos i Broses Cyfiawnder Sifil			
2. Gwneud cais i Lys Sifil			

Does ond angen cwblhau 3 – 9 isod ar ôl i gais gael ei wneud i'r Llys Sifil			
3. Cais am Orchymyn Galwedigaethol			
4. Caniatáu Cais am Orchymyn Galwedigaethol			
5. Cais am Orchymyn Peidio ag Ymyrryd			
6. Caniatáu Cais am Orchymyn Peidio ag Ymyrryd			
7. Achos dan y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu			
8. Achos Gorfodi			
9. Cyfeiriwyd at Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus			

4. Proffil Camdriniaeth ar ddiwedd yr ymyrraeth a chymorth

Proffil Camdriniaeth ar ddiwedd y cyswllt:					
Nodwch y math(au) o gamdriniaeth ar ddiwedd y cyswllt (nodwch gydag X)	Ddim yn gwybod	Heb ofyn	Mwy difrifol	Llai difrifol	Dim newid
Corfforol					
Rhywiol					
Ariannol					
Esgeulustod					
Seicolegol/Emosiynol					

ADRAN B: ADBORTH Y CLEIENT

Does dim ond rhaid cwblhau'r adran hon os oes ganddoch chi wybodaeth oddi wrth y dioddefwr am effaith y gwasanaeth a ddarparwyd.

Adborth:

ADRAN C: ADBORTH YR ASiantAETH

Does dim ond rhaid cwblhau'r adran hon os oes ganddoch chi wybodaeth/sylwadau am effaith y gwasanaeth a ddarparwyd.

Dyddiad y daeth y cyswllt i ben:

Sefydliad:

Atodiad C: Siediwl Cyfweliadau

Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' – Gwerthusiad annibynnol Siediwl cyfweliad ffôn ar gyfer ymarferwyr

Cefndir

1. Hoffwn i gychwyn drwy ofyn ychydig o gwestiynau i chi am eich cefndir proffesiynol:

Beth ydy eich rôl/teitl swydd?

Ers faint ydych chi wedi bod yn y swydd/rôl hon?

Beth ydy eich rôl yn y Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'?

Adran ar weithrediad y Peilot

2. Yn eich geiriau eich hunan, allwch chi roi disgrifiad byr i mi o'r Cynllun 'Mynediad i Gyfiawnder'?

I gymell atebion, os oes angen hynny:

- Sut mae'r cynllun yn anelu i wella'r arferion cyfredol yn gyffredinol?
- Holwch am dderbyn yr arf DASH RIC / MARAC cyn y cynllun.
- Ydy'r cynllun yn cymell gwell defnydd o'r ddarpariaeth bresennol? Os nad ydy, pam hynny; ac os ydy, yna pam hynny?

3. Oeddech chi'n rhan o unrhyw sesiynau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn ystod a chyn lansio'r cynllun?

Os oeddech chi:

- Beth oedd natur eich ymwneud â'r sesiynau hyn?
- Beth oedd yn gweithio'n dda yn y broses?
- Beth fyddai'n gallu cael ei wella?
- Pa asiantaethau eraill oedd yn bresennol yn y sesiwn hyfforddi?
- Beth oedd y canfyddiad cyffredinol am yr hyfforddiant?
- Oedd yna unrhyw asiantaethau oedd i'w gweld yn arbennig o gefnogol neu'n gyndyn i fod yn rhan o'r broses? Os felly, pam?
- Wnaeth unrhyw un wneud sylwadau ar yr arfau Llwybrau Cyfeirio, Cofnod Rheoli Achos (CMR) ayb? Beth oedd eu barn?

4. Unwaith roedd y Peilot wedi ei lansio, oeddech chi'n teimlo bod yr arfau'n ateb y gofyn? Os nad ydyn nhw, pam hynny; ac os ydyn nhw, yna pam hynny?
5. Ydych chi wedi sylwi fod gwahaniaeth yn eich arfer chi eich hunan (neu yn arfer rhai eraill) dweder yn y 12 mis diwethaf o ganlyniad i'r cynllun?

Caniatâd Gwybodus / Materion Galluedd

Nawr, fe hoffwn i drafod mater caniatâd gwybodus a holi os ydych chi'n teimlo bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael y cyfle i ystyried unrhyw remedi ceisio sicrhau cyfiawnder drwy'r wybodaeth roddir iddyn nhw gan asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth.

6. Ydych chi'n credu bod y dioddefwyr yn teimlo bod y cynllun yn rhoi mwy o rym iddyn nhw? I gymell atebion (yn ôl y galw):
 - Ydy'r cynllun wedi newid yr arfer mewn unrhyw ffordd? (MARAC, POVA, gwaith y trydydd sector, cadw cofnodion, ymateb i achosion posibl)
 - Sut y mae fformat y CMR yn fuddiol i annog ymarferwyr i ystyried ydyn nhw wedi archwilio'r opsiynau? (i'w hatgoffa: llwybrau cyfeirio a chaniatâd)
 - Ydy defnyddwyr gwasanaethu'n cael eu hatgoffa am y wybodaeth berthnasol, fel gallan nhw wneud dewis gwybodus am eu hopsiynau? (Os ydyn nhw, pam hynny? Os nad ydyn nhw, pam hynny?)
 - Beth ddylai ymarferwyr ei wneud os oes ganddyn nhw amheuan am alluedd y defnyddiwr gwasanaeth? (Defnyddio IMCA, deall rôl IMCA, cyfeirio ayb.)
 - Beth os bydd eu galluedd yn gyfnewidiol ond eu bod yn dymuno dilyn yr opsiwn cyfiawnder?
 - Beth ydy eich barn ar ymwybyddiaeth gyfredol yr ymarferwyr am roi gwybod i'r defnyddwyr gwasanaeth am ddilyn yr opsiynau cyfiawnder troseddol/sifil?
7. Ydych chi'n teimlo bod angen gwneud newidiadau i wella'r broses? (I'w hatgoffa: gwaith aml-asiantaeth, Arf DASH, POVA)
8. ENGHRAIFFT O ACHOS: Disgrifiwch esiampl lle rydych chi'n credu fod y broses wedi rhoi grym i'r defnyddiwr gwasanaeth a'r hyn rydych chi'n gredu achosodd iddo/iddi deimlo ei f/bod wedi ei r(h)oi mewn sefyllfa i wneud penderfyniad gwybodus.

Datblygu i'r dyfodol

9. Pa agweddau o Gynllun 'Mynediad i Gyfiawnder', yn eich barn chi, sydd bwysicaf i ffocysu arnyn nhw a'u tanlinellu yn ystod ein gwerhusiad o'r cynllun?

Sylwadau olaf

10. Oes ganddoch chi unrhyw sylwadau eraill hoffech chi eu gwneud am gyflenwi gwasanaeth ar gyfer cam-drin domestig, yn lleol/genedlaethol?

Diolch o galon am eich amser ac am eich help.

DIWEDD Y CYFWELIAD

Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' – Gwerthusiad annibynnol Siediwl cyfweliad ffôn gydag aelodau OPAN

Cefndir

1. I ddechrau, wnewch chi ddweud ychydig amdanoch chi eich hunan a pham roeddech chi'n teimlo eich bod am fod yn rhan o'r astudiaeth hon?

Dwy enghraifft (Senario)

2. Dwi am ddarllen disgrifiad byr o senario am brofiad rhywun o gamdriniaeth yr henoed ac yna gofyn am eich barn o'r hyn rydych chi'n feddwl fyddai ei angen ar y dioddefwr:
 - o ran y gwasanaethau'n gyffredinol;
 - o safbwynt cyfiawnder;
 - Hefyd, beth fyddai'r dioddefwr/neu ddioddefwyr (os yn bartneriaid) ei angen o'r broses ac fel canlyniad i hyn.

Senario A

Fe ffôniodd cymdogion yr heddlu gan ddweud eu bod yn clywed ffraeo drws nesaf a'i bod yn swnio fel tasai malurio a gweiddi yno. Pan gyrhaeddodd yr heddlu fe adawodd y cyflawnwr honedig (y mab). Gwrthododd y dioddefydd (y fam) gydweithredu â'r heddlu a dweud eu bod wedi cael anghytundeb bychan. Roedd y dioddefydd yn ymddangos fel pe bai hi wedi cynhyrfu'n arw, roedd ochr ei wyneb yn goch ac roedd wedi colli un o'i dannedd. Dywedodd fod hynny wedi digwydd pan gerddodd yn erbyn drws, gan wadu unrhyw gyhuddiad mai ei mab oedd wedi achosi hyn.

I gymell atebion:

- Beth ydych chi'n deimlo allai fod yn mynd drwy feddwl y dioddefwr?
- Beth ydych chi'n feddwl all yr heddu ei wneud?
- Oes yna unrhyw asiantaethau eraill rydych chi'n deimlo allai fod yn helpu i gynorthwyo'r dioddefwr?
- Beth ydych chi'n feddwl sydd ei angen ar y dioddefwr? Pam?
- Sut byddai'r dioddefwr yn teimlo tuag at y mab os oedd hi'n gwybod ei fod angen arian i brynu alcohol oherwydd ei ddibyniaeth ar y ddiod?

Senario B

Mae'r dioddefwr yn agored iawn i niwed ac yn gymharol gaeth o ran symudedd oherwydd strôc. Gwraig y dioddefydd ydy'r cyflawnwr a hi ydy'r unig ofalwr sydd ganddo. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn galwad ffôn yn dweud fod rhywun yn credu fod y wraig yn dioddef o 'straen gofalwr (carer stress) ac yn esgeuluso'i phriod ac yn ei gam-drin yn emosiynol a chorfforol. Mae yna achosion gwybyddus (yng ngŵydd y plant) lle mae'r wraig wedi ymosod ar y gwr, ond doedd yr un o'r rhain wedi eu riportio i'r heddlu.

I gymell atebion :

- Beth ydych chi'n deimlo sy'n mynd drwy feddwl y dioddefwr?
- Beth ydych chi'n feddwl gall y gwasanaethau cymdeithasol ei wneud/ei ystyried i gynnwys asiantaethau eraill?
- Beth ydych chi'n feddwl sydd ei angen ar y dioddefwr? Pam?
- Sut byddai'r dioddefwr yn eimlo tuag at ei wraig pe byddai'n gwybod ei bod hi'n ymdrechu i ymdopi? Beth pe byddai 'dementia' ar y dioddefwr/cyflawnwr?
- Beth ydych chi'n deimlo gellir ei wneud i helpu oedolion â diffyg galluedd i ddefnyddio opsiynau cyfiawnder/lles?

Cydraddoldeb

3. Sut gallai gwneud penderfyniad gael ei ddylanwadu gan ryw y dioddefwr?
(I gymell atebion: datgeliad, ymateb y gwasanaeth, amser a dylanwad y berthynas)
4. Nawr, fe hoffwn i holi ydych chi'n teimlo bod pobl hŷn yn cael yr cyfle i ystyried remedi drwy gyfiawnder a charfanau eraill o'r gymdeithas?
(oes ganddyn nhw anghenion gwahanol? Sut gall y gwasanaethau ddarparu ar gyfer yr anghenion hyn?)

Datblygu i'r dyfodol

5. Sut dylai pobl hŷn gael eu cefnogi gan y system gyfiawnder droseddol ac asiantaethau cymorth eraill pan fyddan nhw'n dioddef camdriniaeth yn eu henoed.

Sylwadau olaf

6. Oes ganddoch chi unrhyw sylwadau eraill hoffech chi eu gwneud am gyflenwi gwasanaeth i bobl hŷn, lleol/genedlaethol?

Diolch o galon am eich amser ac am eich help.

DIWEDD Y CYFWELIAD

Atodiad D: Model arfer arfaethedig i gysylltu amddiffyn oedolion â cham-drin domestig

Mae'r tabl isod yn rhoi amlinelliad o'r camau allweddol i'w cymryd pan fydd dioddefwr cam-drin domestig hefyd yn oedolyn agored i niwed, yn ôl diffiniad Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru, a phan y gallai oedolyn agored i niwed fod yn ddioddefwr trais domestig.

Cam-drin Domestig	Amddiffyn Oedolion
<u>Cam-drin wedi ei ganfod neu'n cael ei amau</u> - Os yw'r dioddefydd yn oedolyn agored i niwed, dylai pob Asiantaeth gyfeirio at amddiffyn oedolion (hyd yn oed os ydy'r cyflawnwr honedig yn bartner/cyn bartner neu'n unrhyw berthynas i'r dioddefwr honedig ai peidio). <u>Cwblhau rhestr gwirio Canfod Risg CAADA DASH</u> - Dilynwch y Llwybr cyfeirio Cam-drin Domestig i gwblhau RIC. - Os yw RIC wedi ei gwblhau a'i bod yn amlwg bod y dioddefwr honedig yn oedolyn agored i niwed cyfeiriwch at amddiffyn oedolion (pa un ai ydy'r asesiad risg yn ei roi fel un uchel, canolig neu isel ac heb ystyried asesiad o'r galluedd i roi caniatâd i gael ei gyfeirio) <u>MARAC</u> - Cyn y cyfarfod, dylai'r Asiantaethau wirio os ydy'r rhai wedi eu cyfeirio eisoes yn wybyddus iddyn nhw. Yn achos Gwasanaethau Oedolion, dylid hysbysu'r Rheolwr Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol (ar hyn o bryd, caiff hyn ei wneud gan y Cydlynnydd Amddiffyn oedolion). - Gall cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol fynychu MARAC. - Os ydy'r dioddefwr honedig neu'r cyflawnwr yn oedolyn agored i niwed, gwneir y cyfeirio at amddiffyn oedolion drwy ddefnyddio Ffurflen Gyfeirio Amddiffyn oedolion Cymru. - Os cynhelir trafodaethau pellach am yr achos yn MARAC bydd y DLM yn	<u>Cyfeirio</u> - Dylai gynnwys gwybodaeth os ydy'r cyflawnwr honedig yn bartner/cyn bartner neu'n unrhyw berthynas i'r dioddefwr honedig ai peidio. - Dylair cyfeirio gynnwys gwybodaeth am unrhyw gam-drin domestig blaenorol ac unrhyw gamau a weithredwyd. <u>Gwerthusiad cyntaf</u> - Os nad ydy'r dioddefwr honedig yn oedolyn agored i niwed neu heb fod yn cwrdd â throthwy amddiffyn oedolion, rhaid i'r Rheolwr Arweiniol Dynodedig ystyried os oes cam-drin domestig a'i gyfeirio i'r heddlu neu'r gwasanaethau cam-drin domestig neu gynnal RIC ac yna ei gyfeirio. - Os ydy'r dioddefwr honedig yn oedolyn agored i niwed rhaid penderfynu os ydy'r camdriniaeth yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer amddiffyn oedolion. - Os ydy'r trothwy wedi ei gyrraedd, aseswch y risg. Ar y cam hwn, dylid defnyddio'r arf asesu risg arferol ar gyfer camdriniaeth gyda'r wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. - Os oes angen hynny, gweithredwch ar unwaith i amddiffyn y dioddefwr honedig. Os oes cam-drin domestig posibl, gallai hyn olygu defnyddio gwasanaethau cam-drin domestig e.e. lloches. <u>Trafodaeth ar strategaeth</u> - Os ydy'r cyflawnwr honedig yn bartner, cyn-bartner neu'n berthynas i'r dioddefwr, dynodwch y digwyddiad fel cam-drin domestig.

mynychu (neu enwebu rhywun addas i fod yno). Rhennir gwybodaeth am yr achos diogelu oedolyn ac unrhyw weithredu dan y Cynllun Gweithredu MARAC.

MAPPA

- Os ydy'r achosion a gyfeiriwyd at MARAC yn cynnwys cyflawnwr sydd eisoes yn cael ei reoli gan y MAPPA, yna mae MAPPA yn cael blaenoriaeth a chaiff yr holl wybodaeth berthnasol ei roi i gydlynnydd MAPPA i'w gynnwys yn y cynllun rheoli.
- Os ydy'r dioddefwr mewn achos MAPPA yn oedolyn agored i niwed ac y canfyddir ei fod ef neu hi'n wybyddus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, byddai'r Cydlynnydd Amddiffyn Oedolion neu'r Gweithiwr Cymdeithasol perthnasol yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod MAPPA i gyfrannu gwybodaeth.
- Os ydy'r cyflawnwr yn oedolyn agored i niwed yna byddai'r Cydlynnydd Amddiffyn Oedolion neu'r Gweithiwr Cymdeithasol perthnasol yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod MAPPA i gyfrannu gwybodaeth.

- Dynodwch os ydy'r cyflawnwr honedig hefyd yn ofalwr i'r dioddefwr honedig (yn yr achos hwn, gwiriwch asesiadau'r gofalwr a'r gwasanaethau ac ystyriwch gynnwys Gofalwyr Powys Carers).
- Gwiriwch os oes gan y cyflawnwr honedig fynediad at oedolion agored i niwed eraill neu blant e.e drwy'r gwaith a rhannwch y wybodaeth yn ôl sy'n addas.
- Dilynwch y llwybr cyfeirio ar gyfer camdriniaeth domestig er mwyn cwblau rhestr wirio RIC, os nad ydy honno wedi ei chwblhau'n barod gan y cyfeirydd (gallai hyn fod o fewn yr amserlen ar gyfer trafodaeth strategaeth neu fel gweithred sy'n codi o hynny. Gall gael ei gynnal gan y Rheolwr Tîm Arweiniol [DLM], gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr arall sydd wedi ei hyfforddi. Gallai hyn gynnwys asiantaeth ddarparu).
- Os oes angen, gweithredwch yn ddi-oed er mwyn amddiffyn. Os canfyddir cam-drin domestig, gallai hyn olygu defnyddio gwasanaethau cam-drin domestig e.e. lloches.
- Os dynodir y cam-drin domestig fel un sy'n risg uchel, yna cyfeiriwch at MARAC. Bydd y Rheolwr Tîm Arweiniol yn mynychu a/neu reolwr gofal y dioddefwr honedig (os oes un wedi ei glustnodi). Os dynodir y cam-drin domestig fel un sy'n risg canolig/isel cysylltwch â'r Cydlynnydd/Gwasanaethau Cam-drin Domestig am gyngor.
- Trefnwch gyfarfod strategaeth o fewn yr amserlen arferol (efallai na all cyfarfod MARAC gael ei gynnal o fewn yr amserlen).

Cyfarfod strategaeth

- Ym mhob achos o gam-drin domestig posibl, gwahoddwch IDVA/y gwasanaethau cam-drin domestig/ y Cydlynnydd Cam-drin Domestig pa rai bynnag sy'n addas.
- Cynhwyswch yr asiantaethau camdriniaeth domestig yn y Cynllun Amddiffyn.

	<u>Ymchwiliad</u> - Gofynnwch i arbenigwyr cam-drin domestig gymryd rhan yn ôl y galw – e.e. asesu risg cyflawnwr. <u>Cyfarfod Strategaeth olaf</u> - Dylai cynrychiolwyr cam-drin domestig fynychu a chymryd rhan er mwyn penderfynu ar statws yr honiad a'r canlyniadau. - Mae'n bosib y bydd y gwasanaethau cam-drin domestig yn cael eu dynodi yn y canlyniadau ar gyfer y dioddefwr (cyngor, cymorth, lloches) ac/neu ar gyfer y cyflawnwr (asesiad/rhaglen i'r cyflawnwr). <u>Cynhadledd achos</u> (Dyma pryd bydd gwybodaeth am yr ymchwiliad yn cael ei rannu â'r dioddefwr honedig a/neu ei gynrychiolydd a lle cytunir ar Gynllun Amddiffyn). - Dylai staff proffesiynol maes cam-drin domestig gymryd rhan neu arwain y gynhadledd achos yn ôl yr hyn sy'n fwyaf addas. <u>Adolygiad o'r Cynllun Amddiffyn</u> - Dylai staff proffesiynol maes cam-drin domestig gymryd rhan os ydyn nhw wedi bod yn ymwneud yn gyson neu os daw hi'n addas i gynnwys y gwasanaethau cam-drin domestig.
--	---

Richards, M. a Kaye, A. (2011) *Adult Protection and Domestic Abuse: Strengthening the Links*, Adroddiad Interim, Prosiect Peilot Powys.

Atodiad E: Rôl MARAC, IDVA ac IMCA

Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC) *Multi-Agency Risk Assessment Conference*

Mae'r MARAC yn rhan o strategaeth aml-asiantaeth i daclo trais domestig ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau'r heddlu, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, Cynghorwyr Trais Domestig (IDVAs) ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Ei brif nod ydy lleihau'r risg o niwed difrifol neu ddynladdiad dioddefwr cam-drin domestig. Mae asiantaethau lleol yn cyfarfod i drafod sefyllfa'r dioddefwyr hynny dan risg uchel a phenderfyniadau pa gamau i'w cymryd i sicrhau eu diogelwch. Caiff gwybodaeth ei gyfnewid i greu cynlluniau unigol i reoli risg.

Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) *Independent Domestic Violence Advisor*

Prif rôl yr IDVA ydy edrych ar ddiogelwch y dioddefwyr sydd dan risg uchel o gael eu niweidio gan bartneriaid agos, cyn-bartneriaid neu aelodau eraill o'r teulu. Hwyt ydy prif bwynt cyswllt y dioddefwyr ac fel arfer maen nhw'n gweithio gyda'r cleientiaid i asesu lefel y risg a chreu cynlluniau diogelu. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys gweithredu ar ran MARAC ynghyd â sancsiynau a remediâu gaiff eu darparu gan lysoedd troseddol a sifil a sefydliadau sy'n gallu cynnig cymorth â thai a lles cymdeithasol.

Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA) *Independent Mental Capacity Advocate*

Mae eiriolwyr IMCA yn gweithio o fewn fframwaith Deddf Galluedd Meddyliol 2005 i hyrwyddo buddiannau pobl sydd heb y galluedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Yn nodweddiadol, maen nhw'n cymryd rhan pan mae'n rhaid gwneud penderfyniadau arwyddocaol, megis symud i gartref gofal, a bod y person dan sylw yn cael ei alw'n 'ddigyfaill'. Mae hyn yn golygu nad oes gan y person neb i siarad ar eu rhan na neb sy'n addas (er enghraifft, gallai'r cyflawnwr fod y perthynas agosaf). Mewn achosion lle mae amheuan o gam-drin mae yna ddisgresiwn i gynnwys eiriolwr IMCA pan fydd diffyg galluedd gan y dioddefwr.